

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru
National
Assembly for
Wales



BIL CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU (IEITHOEDD SWYDDOGOL)

Memorandwm Esboniadol
yn ymgorffori'r Aseiad Effaith Rheoleiddiol,
Ionawr 2012 (copi diwygiedig Medi 2012)

BIL CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU (IEITHOEDD SWYDDOGOL)

Memorandwm Esboniadol i Fil Cynulliad Cenedlaethol Cymru (leithoedd Swyddogol).

Paratowyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan Rhodri Glyn Thomas a chaiff ei osod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Mae wedi ei baratoi a'i osod yn unol â Rheol Sefydlog 26.6. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi'r cefndir i amcanion polisi, darpariaethau a chwmpas Bil Cynulliad Cenedlaethol Cymru (leithoedd Swyddogol) ("y Bil").

Datganiad yr Aelod

Yn fy marn i, byddai darpariaethau Bil Cynulliad Cenedlaethol Cymru (leithoedd Swyddogol), a gyflwynir gennyf ar 30 Ionawr 2012, o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Rhodri Glyn Thomas AC
Comisiynydd y Cynulliad, sydd â chyfrifoldeb dros y Gymraeg
Yr Aelod Cynulliad sy'n gyfrifol am y Bil
30 Ionawr 2012

Cynnwys

Rhan 1: Cefndir a diben y Bil	1
1. Cyflwyniad	1
2. Cefndir deddfwriaethol:	2
Ceddfwriaeth bresennol	2
Cymhwysedd deddfwriaethol	3
3. Pam mae angen rhagor o ddeddfwriaeth?	5
4. Beth yw diben y Bil?	6
5. Effaith y deddfwriaeth	7
6. Ymgynghoriad	7
7. Pŵer i wneud Is-ddeddfwriaeth	12
8. Cymhwysiad Tiriogaethol	12
Rhan 2: Aseiad Effaith Rheoleiddiol	13
9. Opsiynau	13
10. Costau a manteision	14
Rhan 3: Nodiadau Esboniadol	18
11. Adran 1	21
12. Adran 2	22
13. Adran 3	24
Atodiad A: Cwestiynau'r ymgynghoriad	25
Atodiad B: Cynllun Ieithoedd Swyddogol	27

Rhan 1: Cefndir a diben y Bil

1. Cyflwyniad

- 1.1 Sefydlwyd y Cynulliad Cenedlaethol yn wreiddiol o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998. Gwnaethpwyd diwygiadau mawr i'w strwythur a'i bwerau gan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 ("Deddf 2006"). Ymhlith y diwygiadau hyn oedd sefydlu Comisiwn y Cynulliad fel corff (ag iddo statws cyfreithiol ar wahân i'r Cynulliad Cenedlaethol ei hun) i fod yn gyfrifol am ddarparu eiddo, staff a gwasanaethau at ddibenion y Cynulliad Cenedlaethol
- 1.2 Mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn gwasanaethu cymuned ddwyieithog. Yn ôl cyfrifiad 2001, roedd 21 y cant o boblogaeth Cymru'n gallu siarad Cymraeg (yn uwch na'r 18.5 y cant ym 1991). Mae llawer o Aelodau'r Cynulliad, yn ogystal â'r rhai sy'n rhoi tystiolaeth i bwllgorau'r Cynulliad ac yn eu cyngori, yn awyddus i ddefnyddio'r iaith yn nhrefodion y Cynulliad Cenedlaethol
- 1.3 Mae'r egwyddor y dylai'r Cynulliad Cenedlaethol a Chomisiwn y Cynulliad weithredu yn unol ag anghenion cymuned ddwyieithog wedi'i gorffori yn Neddf 2006. Yn ei gyfarfod ar 14 Gorffennaf 2011, cytunodd Comisiwn y Cynulliad i gyflwyno deddfwriaeth newydd i egluro dyletswyddau'r Cynulliad Cenedlaethol a Chomisiwn y Cynulliad o ran darparu gwasanaethau dwyieithog a'u rhoi ar sail statudol gadarn. Cytunodd, hefyd, y dylai'r Cynulliad symud ymlaen ar sail Cynllun Ieithoedd Swyddogol a ddarperir ar ei gyfer o dan y ddeddfwriaeth arfaethedig.

2. Cefndir deddfwriaethol

Deddfwriaeth bresennol

- 2.1 Roedd Deddf Llywodraeth Cymru 1998 (“Deddf 1998”) yn ei gwneud yn ofynnol i’r Cynulliad Cenedlaethol:

“in the conduct of its business (to) give effect, so far as is both appropriate in the circumstances and reasonably practicable, to the principle that the English and Welsh languages should be treated on a basis of equality.”

- 2.2 O dan Ddeddf 1998, roedd y Cynulliad Cenedlaethol yn gorff y goron ac, felly, i raddau cyfyngedig, yn destun darpariaethau Rhan 2 o Ddeddf yr Iaith Gymraeg 2003 a oedd yn ei gwneud yn ofynnol i rai cyrff cyhoeddus baratoi cynllun iaith Gymraeg a’i gyflwyno i Fwrdd yr Iaith Gymraeg i’w gymeradwyo (neu, yn achos cyrff y goron, benderfynu’n wirfoddol i wneud hynny).

- 2.3 Roedd Deddf 2006 yn ailddatgan y ddyletswydd a roddwyd ar y Cynulliad Cenedlaethol gan Ddeddf 1998, er bod y cyfeiriad at “draffodion” y Cynulliad Cenedlaethol yn hytrach na “busnes” y Cynulliad Cenedlaethol yn adlewyrchu’r ffaith mai corff seneddol yn unig oedd y Cynulliad Cenedlaethol bellach. O dan adran 35(1) o Ddeddf 2006 –

“(1) The Assembly must, in the conduct of Assembly proceedings, give effect, so far as is both appropriate in the circumstances and reasonably practicable, to the principle that the English and Welsh languages should be treated on a basis of equality.”

- 2.4 Mae hefyd yn gosod dyletswydd gyfochrog ar Gomisiwn newydd y Cynulliad (paragraff 8(3) o Atodlen 2 i Ddeddf 2006) –

“(3) In the exercise of the functions of the Assembly Commission effect must be given, so far as is both appropriate in the circumstances and reasonably practicable, to the principle that the English and Welsh languages should be treated on a basis of equality.”

- 2.5 Yn yr achosion hyn i gyd, cafodd y ddyletswydd ei geirio er mwyn adlewyrchu darpariaethau Deddf 1993, sy’n ei gwneud yn ofynnol i

gynlluniau iaith Gymraeg ddangos sut mae cyrff cyhoeddus yn cynnig gweithredu'r egwyddor:

“so far as is both appropriate in the circumstances and reasonably practicable, to the principle that in the conduct of public business and the administration of justice in Wales the English and Welsh languages should be treated on a basis of equality.”

- 2.6 Bellach, mae'r gyfraith mewn perthynas â'r Gymraeg wedi symud ymlaen. Bydd Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 (“y Mesur”), a ddaeth yn gyfraith ar 9 Chwefror 2011 yn diddymu Deddf 1993 a chyfundrefn y cynlluniau iaith, ac yn eu lle yn cyflwyno “safonau” a gaiff eu gosod gan Weinidogion ac y gellir eu gorfodi yn y llysoedd gan Gomisiynydd y Gymraeg. Bydd y Mesur hefyd yn cael gwared ar Fwrdd yr Iaith Gymraeg pan gaiff y darpariaethau perthnasol eu cychwyn.
- 2.7 Nid yw naill ai'r Cynulliad Cenedlaethol ei hun na Chomisiwn y Cynulliad yn destun y trefniadau newydd hyn sy'n cael eu goruchwyllo gan Weinidogion. Yn hytrach, maent yn parhau'n destun y dyletswyddau o dan Ddeddf 2006. Mae hyn yn adlewyrchu sefyllfa gyfansoddiadol lle nad oes gan Weinidogion Cymru awdurdodaeth dros y Cynulliad Cenedlaethol.
- 2.8 Ers ei sefydlu fel corff seneddol yn unig yn 2007, mae'r ffordd y mae'r Cynulliad Cenedlaethol (gyda chefnogaeth y cyfleusterau a ddarperir gan Gomisiwn y Cynulliad) yn cyflawni ei ddyletswydd bresennol wedi bod yn destun cynllun iaith Gymraeg. Roedd ar ffurf y rhai a baratowyd gan gyrff cyhoeddus o dan Ddeddf 1993, yn unol â'r canllawiau a roddwyd gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg ac fe'i cymeradwywyd gan y Bwrdd. Mae diddymu'r Bwrdd yn golygu na fydd parhau â'r dull hwn yn ddewis a fydd ar gael i'r Cynulliad Cenedlaethol a Chomisiwn y Cynulliad

Cymhwysedd Deddfwriaethol

- 2.9 Mae darpariaethau'r Bil yn ymwneud â defnyddio'r Gymraeg wrth gynnal trafodion y Cynulliad ac wrth arfer swyddogaethau Comisiwn y Cynulliad. Maent yn ymwneud â'r meysydd a ganlyn yn Atodlen 7 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006:

Maes 13: Cynulliad Cenedlaethol Cymru; a
Maes 20: Y Gymraeg.

- 2.10 Felly, mae darpariaethau'r Bil yn dod o dan adran 108(4)(a) o'r Ddeddf a chan eu bod yn ymwneud â'r Cynulliad yn unig ac, felly, mewn cysylltiad â Chymru, nid ydynt yn dod o dan adran 108(4)(c) o'r Ddeddf.
- 2.11 Nodir bod Maes 20 yn ymwneud â'r Gymraeg yn unig, ac felly rhaid nodi nad yw'r Bil yn gwneud darpariaeth o sylwedd mewn cysylltiad â'r Saesneg h.y. nid yw'n effeithio ar statws cyfreithiol y Saesneg mewn cysylltiad â thrafodion y Cynulliad. Nid yw'r ddarpariaeth sy'n datgan bod y Gymraeg a'r Saesneg yn ieithoedd swyddogol y Cynulliad yn gwneud dim mwy nag ailddatgan, yn symlach ac yn fwy uniongyrchol, y gofyniad presennol yn adran 35(1) o'r Ddeddf, fod yn rhaid i'r Cynulliad weithredu'r egwyddor y dylid trin y Gymraeg a'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal wrth gynnal trafodion y Cynulliad, cyhyd ag y bo hynny'n briodol dan yr amgylchiadau ac yn rhesymol ymarferol. Dim ond mewn cysylltiad, wrth ailddatgan yr egwyddor o fod yn gyfartal, y cyfeirir at y Saesneg yn ogystal â'r Gymraeg yn y ddarpariaeth o sylwedd sy'n ymwneud â'r Gymraeg, ac felly mae'n dod o dan adran 108(5)(b) o'r Ddeddf.
- 2.12 Mae'r Bil yn diwygio dwy o ddarpariaethau Deddf Llywodraeth Cymru 2006, sef adran 35(1) a pharagraff 8(3) o Atodlen 2. Ar y cyfan, mae diwygiadau i Ddeddf 2006 y tu allan i gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad, ond mae darpariaethau'r Bil yn dod o dan yr eithriad i'r rheol honno sydd i'w chael ym mharagraff 5(2) o Atodlen 7 i'r Ddeddf ac sy'n galluogi un o Ddeddfau'r Cynulliad i ddiwygio'r darpariaethau o dan sylw.
- 2.13 Nid yw'r Bil, sy'n ymwneud â thrafodion a rheolaeth fewnol y Cynulliad a Chomisiwn y Cynulliad yn unig, yn cynnwys unrhyw ddarpariaethau sy'n anghyson â Hawliau Confensiwn na chyfreithiau'r Undeb Ewropeaidd nac sy'n effeithio ar swyddogaethau Gweinidogion y Goron ac nid yw'n torri unrhyw gyfyngiadau eraill yn Atodiad 7 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.
- 2.14 Felly, mae holl ddarpariaethau'r Bil yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad.

3. Pam mae angen rhagor o ddeddfwriaeth?

- 3.1 Arweiniodd y penderfyniad gwreiddiol i roi'r gorau i gofnod cwbl ddwyieithog o drafodion y Cyfarfod Llawn (cyfarfodydd y Cynulliad cyfan) ym mis Medi 2009 at ansicrwydd o ran sefyllfa gyfreithiol y Cynllun Iaith Gymraeg a'r berthynas rhwng y Cynulliad, y Comisiwn, Bwrdd yr Iaith Gymraeg a Gweinidogion Cymru.
- 3.2 Cytunodd Comisiwn y Trydydd Cynulliad i ystyried sut y gallai egluro'r darpariaethau deddfwriaethol sy'n ymwneud â sefyllfa'r Gymraeg yng ngwaith y Cynulliad a'r Comisiwn a chryfhau'r darpariaethau hynny.
- 3.3 Cafodd y penderfyniad ei ysgogi, hefyd, gan waith y Panel Adolygu Annibynnol ar Wasanaethau Dwyieithog ("y Panel Adolygu") a sefydlwyd ym mis Medi 2009 ac a gyflwynodd ei adroddiad i Gomisiwn y Cynulliad ym mis Mai 2010. Roedd sefydlu'r panel ynddo'i hun yn ymateb ar ran Comisiwn y Cynulliad i'r dadleuon a godwyd yn sgil ei benderfyniad i gyfyngu ar gyfieithu'r cofnod o drafodion y Cyfarfod Llawn i gyfieithiad o Gymraeg i Saesneg yn unig.
- 3.4 Er nad oedd darpariaethau deddfwriaethol manwl yn rhan o gylch gwaith penodol y Panel Adolygu a'i argymhellion, teimlai'r Panel Adolygu y dylid datgan "ei bod hi'n werth ymchwilio ymhellach i rinweddau Mesur Cynulliad Cenedlaethol Cymru (leithoedd)". Roedd y farn hon yn seiliedig ar dystiolaeth a roddwyd gerbron y Panel Adolygu ynghylch y ffordd y mae dyletswyddau o ran darpariaeth ddwyieithog wedi'u diffinio mewn gwledydd dwyieithog neu amlieithog eraill fel Canada, Iwerddon a'r Swistir.
- 3.5 Rhoddwyd ysgogiad pellach i hyn gan y newidiadau i'r gyfraith a fyddai'n cael eu gwneud gan Fesur y Gymraeg 2011, a sefydlu swydd Comisiynydd y Gymraeg. Y Comisiynydd fydd yn gyfrifol am ddatblygu system reoleiddio newydd, yn seiliedig ar safonau, i sicrhau bod gwasanaethau Cymraeg yn cael eu darparu ar gyfer y cyhoedd.

4. Beth yw diben y Bil?

- 4.1 Diben y Bil yw rhoi dyletswyddau'r Cynulliad, a rhai'r Comisiwn, mewn cysylltiad â darparu gwasanaethau dwyieithog, ar sail statudol gadarn.
- 4.2 Mae'r fframwaith deddfwriaethol sy'n llywodraethu'r gwasanaethau dwyieithog a ddarperir gan y Comisiwn wedi dyddio am ei fod wedi ei fodelu ar Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993, sydd bellach wedi'i disodli gan Fesur y Gymraeg 2011. Yn unol ag egwyddorion cyfansoddiadol sylfaenol, nid yw'r Cynulliad na'r Comisiwn yn destun y trefniadau newydd hyn ond maent yn parhau i fod yn destun y dyletswyddau a gaiff eu gosod gan Ddeddf 2006.
- 4.3 Caiff y gwasanaethau dwyieithog a ddarperir ar hyn o bryd gan Gomisiwn y Cynulliad ar gyfer y Cynulliad Cenedlaethol a'r cyhoedd eu hamlinellu yng Nghynllun Iaith Gymraeg 2007-2011. Adolygwyd y Cynllun presennol yn sgil: adroddiad y Panel Adolygu; cynigion deddfwriaethol Bil (Drafft) Cynulliad Cenedlaethol Cymru (leithoedd Swyddogol); ein profiadau yn ystod y Trydydd Cynulliad, a'r ymgynghoriad cyhoeddus a gynhaliwyd yn ystod y cyfnod rhwng mis Awst a mis Tachwedd 2011.
- 4.4 Caiff y gwasanaethau dwyieithog ehangach a gaiff eu cyflenwi ar gyfer y Pedwerydd Cynulliad eu hamlinellu yn y Cynllun Ieithoedd Swyddogol draft (Atodiad B). Mae'r Cynllun yn:
- nodi'n glir mai'r Gymraeg a'r Saesneg yw ieithoedd swyddogol y Cynulliad ac y dylid eu trin yn gyfartal;
 - nodi'r trefniadau ymarferol i alluogi'r Cynulliad i weithredu'n ddwyieithog;
 - sicrhau hawl pawb sydd am gymryd rhan yn nhrefodion y Cynulliad (fel tystion a swyddogion yn ogystal ag Aelodau) i wneud hynny yn y naill iaith neu'r llall o ieithoedd swyddogol y Cynulliad;
 - nodi sut y bydd y Cynulliad yn darparu gwasanaethau dwyieithog i'r cyhoedd;
 - amlinellu sut y bydd trefniadau corfforaethol y Cynulliad yn gwireddu ei uchelgais i ddarparu gwasanaethau dwyieithog ac yn cefnogi'r uchelgais honno; ac
 - egluro gweithdrefn y Cynulliad ar gyfer ymdrin â chwynion ynghylch diffyg cydymffurfio â'r Cynllun, gan Aelodau neu gan y cyhoedd.

- 4.5 Yn ystod Cyfnod 2, ac mewn ymateb i adroddiad y pwyllgor, cynigwyd gwelliant gan yr Aelod sy'n gyfrifol am y Bil sy'n ychwanegu pum elfen newydd y bydd yn rhaid i Gynllun Ieithoedd Swyddogol eu cynnwys. Yr elfennau yw:
- Camau yn ymwneud ag ymgysylltiad y cyhoedd â'r Cynulliad;
 - Pennu targedau ac amserlenni o fewn y Cynllun;
 - Dyrannu cyfrifoldebau er mwyn hwyluso'r gwaith o weithredu'r Cynllun;
 - Dull o fesur y cynnydd a wneir o ran gweithredu'r Cynllun; a
 - Strategaeth ar gyfer sicrhau bod gan y staff y Cynulliad y sgiliau iaith sydd eu hangen arnynt i sicrhau bod modd gweithredu'r Cynllun.
- 4.6 Cyflwynwyd gwelliannau pellach gan yr Aelod sy'n gyfrifol am y Bil sy'n disodli'r gofyniad i Gomisiwn y Cynulliad adolygu'r Cynllun bob pum mlynedd, gyda gofyniad bod adolygiadau o'r fath yn cael eu cynnal cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl Etholiad Cyffredinol yng Nghymru.
- 4.7 Pasiwyd y gwelliannau hyn ac ychwanegwyd y ddarpariaeth newydd i'r Bil.

5 Effaith y ddeddfwriaeth

- 5.1 Mae'r Bil yn diwygio darpariaethau presennol Deddf Llywodraeth Cymru 2006 sy'n nodi dyletswyddau cyffredinol y Cynulliad Cenedlaethol a Chomisiwn y Cynulliad o ran defnyddio'r Gymraeg (adran 35(1) a pharagraff 8(3) o Atodlen 2).

6 Ymgynghoriad

Cefndir yr ymgynghoriad

- 6.1 Cafodd yr ymgynghoriad cyhoeddus ar y Bil Ieithoedd Swyddogol drafft a'r Cynllun Gwasanaethau Dwyieithog drafft (fel y'i disgrifiwyd ar y pryd) ei lansio yn yr Eisteddfod Genedlaethol ar 3 Awst 2011 a daeth i ben ar 14 Hydref 2011.
- 6.2 Yn ystod y cyfnod hwn:
- cysylltwyd yn uniongyrchol â 587 o sefydliadau ynghylch y broses ymgynghori;

- lansiodd Comisiwn y Cynulliad ymgyrch yn y cyfryngau i roi cyhoeddusrwydd i'r ymgynghoriad, ac arweiniodd hyn at sylw cadarnhaol;
- daeth dros 40 o gynrychiolwyr i gyfarfodydd rhanddeiliaid er mwyn galluogi ac annog y rhai a oedd yn bresennol i ddarparu ymatebion ysgrifenedig llawn ac ystyrion i'r ymgynghoriad. Cynhaliwyd y cyfarfodydd, a oedd yn dwyn y teitl "Pwerau deddfu a gwasanaethau dwyieithog yn y Cynulliad Cenedlaethol", mewn tri lleoliad yn ystod yr wythnos yn dechrau 26 Medi:
 - 26 Medi 09.30-11.30 – Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Bae Colwyn
 - 26 Medi 15.00-17.00 – Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth
 - 28 Medi, 09.30-11.30 – Y Pierhead, Bae Caerdydd;
- cynhaliodd Comisiwn y Cynulliad 13 o gyfarfodydd staff er mwyn rhoi cyfle iddynt gyflwyno sylwadau a thrafod effaith y Cynllun ar gyflenwi gwasanaethau; a
- chynhaliodd Comisiwn y Cynulliad gyfarfod cychwynnol gyda rheolwyr y grwpiau pleidiau i amlinellu egwyddorion y Mesur a'r Cynllun.

Yr ymatebion i'r ymgynghoriad

6.3 Roedd y llythyr ymgynghori ar y Cynllun Gwasanaethau Dwyieithog Drafft yn cynnwys wyth cwestiwn ac roedd y llythyr ymgynghori ar y Bil Ieithoedd Swyddogol yn cynnwys 11 cwestiwn (Atodiad A).

6.4 Cafwyd 59 o ymatebion i'r ymgynghoriad.

Ymatebion nad oeddynt yn mynegi safbwynt

6.5 O'r rhain, cafwyd un ymateb gan Senedd Canada yn nodi sut mae dwyieithrwydd yn gweithio yn y senedd yno a chafwyd un gan Drenau Arriva Cymru yn nodi nad oedd gan y cwmni farn i'w mynegi nac awgrymiadau pellach i'w rhoi o ran yr ymgynghoriad hwn.

Ymatebion yn mynegi safbwynt

6.6 O'r 57 arall, cyflwynwyd 50 yn Gymraeg yn unig a 7 yn Saesneg yn unig. Er nad yw'n ddoeth gwneud tybiaethau ar sail yr iaith a ddefnyddiodd yr ymatebwyr, mae'n werth nodi bod y rhai a ymatebodd yn Gymraeg o

blaid y Bil a'r Cynllun, neu'n cynnwys awgrymiadau ar gyfer eu cryfhau, ond bod y rhai a ymatebodd yn Saesneg, ar y cyfan, yn erbyn y Bil a'r Cynllun. Yn gyffredinol, nid oedd yr ymatebion yn ymateb yn uniongyrchol i gwestiynau penodol yr ymgynghoriad. Mae hyn yn ei gwneud yn fwy anodd dadansoddi'r canlyniadau a dod i gasgliadau ar sail yr ymgynghoriad.

Nifer yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn ôl iaith

- 6.7 O'r 50 o ymatebion a gafwyd yn Gymraeg, roedd 40 ohonynt yn seiliedig ar ymateb templed a gyhoeddodd Cymdeithas yr Iaith ar ei gwefan; roedd 32 ohonynt yn union yr un fath ac wyth ohonynt yn amrywiadau ar y gwreiddiol. Mae hyn yn cyfateb i dros ddwy ran o dair o'r holl ymatebion, felly rhaid cadw hyn mewn cof wrth ystyried unrhyw ymatebion gyda'i gilydd. Cafodd dau o'r ymatebion eu hanfon gan un person, un ar ran Cymdeithas yr Iaith, a'r llall fel unigolyn.
- 6.8 Cafwyd chwech o'r ymatebion Saesneg gan aelodau o'r cyhoedd.
- 6.9 Daeth un o'r ymatebion Saesneg gan sefydliad, sef Agored Cymru, a oedd yn datgan ei fod o blaid y Bil a'r Cynllun.

Crynodob o'r ymatebion a oedd o blaid

- 6.10 Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebion a oedd o blaid y Bil a'r Cynllun (40) yn seiliedig ar dempled a gyhoeddodd Cymdeithas yr Iaith ar ei gwefan.
- 6.11 O'r 11 nad oeddynt yn seiliedig ar dempled, cafwyd ymatebion gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg; swyddog polisi o Fwrdd yr Iaith Gymraeg; Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru, grŵp o swyddogion Cymraeg yn ne Cymru; Athro yn Ysgol y Gymraeg Prifysgol Caerdydd; Mentrau Iaith Cymru; Agored Cymru (sef sefydliad i hybu cyfleoedd dysgu gydol oes a datblygiad drwy gymhwyster a chredyd o safon uchel); ymgynghorydd cyfathrebu a chyfieithydd annibynnol.
- 6.12 Roedd yr ymatebion hyn yn gyfuniad o gefnogaeth gref i'r Cynllun a chryfhau'r cynnwys. Roedd ymateb gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri yn cytuno â holl gwestiynau'r ymgynghoriad. Cafwyd ymateb, hefyd, gan Uned Technolegau Iaith Prifysgol Bangor, a oedd yn datgan ei gytundeb llawn ag egwyddorion dwyieithrwydd yng ngwaith y

Cynulliad. Ni wnaeth sylwadau ar gynnwys y Bil Drafft na'r Cynllun Drafft, ond cynigiodd gyngor ar dechnoleg cyfieithu awtomatig, drafftio dogfennau yn Gymraeg yn gyntaf a'r diwydiant technoleg cyfieithu.

6.13 Prif themâu'r ymatebion hyn oedd:

- cefnogaeth gyffredinol dros osod dyletswydd i ddarparu cofnod cwbl ddwyieithog o drafodion y Cyfarfod Llawn ar wyneb y Bil gan bron iawn bawb a ymatebodd;
- yr angen am drefniadau cofnodi a chraffu cadarn mewn cysylltiad â pherfformiad o ran y Cynllun;
- galwadau i'r Cynulliad arwain drwy esiampl o ran cefnogi'r Gymraeg a pholisi a darpariaeth o ran y Gymraeg;
- gwrthwynebu o ran cydraddoldeb a hawl pobl i gyfrannu yn eu dewis iaith; ac,
- yr iaith a ddefnyddir yn y Cynulliad Cenedlaethol. Roedd rhai o'r ymatebion yn teimlo y dylai'r Cynulliad ganolbwyntio mwy ar ei nod o sicrhau bod yr holl staff yn meddu ar rai sgiliau iaith Gymraeg. Roedd eraill yn credu y dylai holl staff Cynulliad Cenedlaethol Cymru fod yn ddwyieithog.

6.14 Cafwyd rhai awgrymiadau unigol hefyd i ddiwygio adrannau penodol o'r Bil neu'r Cynllun.


Crynodeb o'r ymatebion yn erbyn

6.15 Sylwadau cyffredinol gan aelodau o'r cyhoedd yn bennaf oedd y chwech o ymatebion yn erbyn y Cynllun a'r Bil. Cafwyd rhai sylwadau penodol am y Cynllun neu'r Bil:

- Ar wahân i un ymateb cyffredinol cymharol fyr, roedd pob un yn mynegi gwrthwynebiad cryf iawn o ran y costau. Nododd un ymateb bod angen nodi'r gost ar gyfer hyn a pholisïau eraill sy'n hybu'r Gymraeg;
- Ar y cyfan, roedd pob un o'r ymatebion hyn yn credu nad oedd y polisi yn adlewyrchu anghenion y mwyafrif o bobl Cymru. Aeth rhai ymlaen i gyfeirio at yr hinsawdd economaidd bresennol, gan esbonio eu barn y gallai'r arian gael ei wario'n well rywle arall;
- Codwyd ambell wrthwynebiad ynghylch yr hyn a ystyrir yn ddiffyg swyddi ar gyfer pobl nad ydynt yn siarad Gymraeg (sef mwyafrif y bobl yng Nghymru) yn y sector cyhoeddus o ganlyniad i lansio'r Bil / Cynllun;

- Mynegodd ddau ymateb bryder bod yr ymgynghoriad wedi'i hysbysebu'n ddiffygiol a diffyg ymwybyddiaeth y cyhoedd yn ei gylch;
- Cafwyd dwy alwad am refferendwm ynghylch y mater ehangach o wariant ar ddwyieithrwydd yn y sector cyhoeddus yn ei gyfanrwydd.

Dadansoddiad o'r ymatebion i'r ymgynghoriad yn ôl yr iaith a ddefnyddiwyd:



Cynrychioldeb

6.16 O natur yr ymatebion, ni ellir cymryd yn ganiataol eu bod yn cynrychioli barn y boblogaeth gyfan. Un esboniad posibl fyddai bod gan rai grwpiau o'r boblogaeth fwy o ddiddordeb yn y mater hwn nag eraill.

6.17 O ran ffurf yr ymatebion a gafwyd, ymatebodd rhai yn uniongyrchol i'r cwestiynau a godwyd yn yr ymgynghoriad, ymatebodd rhai yn gyffredinol i'r ymgynghoriad ac ymatebodd rhai i'r egwyddor o hyrwyddo / cydraddoldeb ieithoedd yn gyffredinol.

6.18 Mewn cyfarfod ar 24 Tachwedd 2011, cytunodd y Comisiwn ar y diwygiadau a ganlyn i'r Bil yn sgil yr ymatebion:

- diwygio geiriad adran 1(2) sy'n ymwneud â defnyddio'r naill iaith swyddogol yn nhrefodion y Cynulliad fel cyfeirio at "hawl" i wneud hynny;

- newid enw'r Cynllun i'r "Cynllun Ieithoedd Swyddogol";
- cynnwys darpariaeth yn y Bil ar gyfer paratoi adroddiadau monitro cydymffurfio blynyddol ac iddynt gael eu gosod gerbron y Cynulliad;
- cynnwys gofyniad yn y Bil i'r Cynllun ymgorffori dull tryloyw o ymdrin â chwynion neu achosion o dorri'r Cynllun;
- newid y gofyniad presennol i'r Cynllun gael ei adolygu o leiaf unwaith bob pedair blynedd i o leiaf unwaith bob pum mlynedd.

6.19 Cytunodd y Comisiwn hefyd ar y diwygiadau a'r gwelliannau a ganlyn i'r Cynllun yn sgil yr ymatebion:

- cytunodd y Comisiwn i ailsefydlu cofnod cwbl ddwyieithog o drafodion y Cyfarfod Llawn a chynnwys y ddarpariaeth yn y Cynllun;
- newid enw'r Cynllun i'r "Cynllun Ieithoedd Swyddogol" (yn unol â'r diwygiad arfaethedig i'r Bil);
- adolygu ac aralleirio'r adran sy'n amlinellu'r weithdrefn ar gyfer cyhoeddi tystiolaeth ysgrifenedig;
- cynnwys paragraffau esboniadol yn esbonio pam mae cyfathrebu rhwng Aelodau unigol y Cynulliad a'r cyhoedd y tu allan i gwmpas y Cynllun;
- ysgrifennu paragraffau esboniadol a'u cynnwys ar y rhyngwyneb rhwng y Bil a'r Cynllun, Mesur y Gymraeg 2011 a Chomisiynydd y Gymraeg.

6.20 Rhoddodd y Comisiwn ystyriaeth ofalus i'r cynnig y dylai dyletswydd i ddarparu cofnod cwbl ddwyieithog o drafodion cyfarfodydd llawn gael ei roi ar wyneb y Bil yn hytrach na chael ei adael i'w bennu yn y Cynllun. Ystyriodd y Comisiwn y byddai'n rhaid i'r Cynllun ei hun gael ei gymeradwyo gan y Cynulliad, ac felly, wedi iddo gael ei gymeradwyo, byddai'r Comisiwn o dan ddyletswydd i'w weithredu. Penderfynodd y Comisiwn felly na fyddai cynnwys, yn ychwanegol, ddyletswydd gyfreithiol anhyblyg ar wyneb y Bil ei hun yn angenrheidiol nac yn ddymunol.

7 Pŵer i wneud Is-ddeddfwriaeth

7.1 Dim ond darpariaeth ar gyfer gwneud cynllun gan Gomisiwn y Cynulliad y mae'r Bil yn ei wneud, ac nid oes ynddo unrhyw bwerau i wneud is-ddeddfwriaeth.

8 Cymhwysiad Tiriogaethol

8.1 Dim ond mewn cysylltiad â Chymru y bydd y Ddeddf hon yn gymwys.

Rhan 2: Aseiad Effaith Rheoleiddiol

9 Opsiynau

9.1 Yr opsiynau presennol yw:

Opsiwn 1: Gwneud dim

Opsiwn 2: Cyflwyno Bil arfaethedig

Opsiwn 1

9.2 Yr opsiwn cyntaf yw i Gomisiwn y Cynulliad barhau o dan y trefniadau deddfwriaethol presennol. Mae Deddf Llywodraeth Cymru 2006 yn gosod y dyletswyddau a ganlyn ar y Cynulliad:

- The Assembly must, in the conduct of Assembly proceedings, give effect, so far as is both appropriate in the circumstances and reasonably practicable, to the principle that the English and Welsh languages should be treated on a basis of equality.
- The Assembly must make appropriate arrangements with a view to securing that Assembly proceedings are conducted with due regard to the principle that there should be equality of opportunity for all people.

9.3 Mae'r Comisiwn yn cyflawni hyn ar hyn o bryd drwy amlinellu ei wasanaethau dwyieithog, yn wirfoddol, yn unol â darpariaethau'r Ddeddf. Fodd bynnag, nid yw parhau â'r trefniadau presennol yn bodloni amcanion polisi'r Bil, sef darparu'r sail gadarn sydd ei hangen ar Gomisiwn y Cynulliad i lywodraethu'r trefniadau ar gyfer darparu a datblygu ei wasanaethau dwyieithog. Gallai, hefyd, danseilio hyder y cyhoedd yn ymrwymiad Comisiwn y Cynulliad i wasanaethau dwyieithog.

Opsiwn 2

9.4 Y dewis arall yw i Gomisiwn y Cynulliad gyflwyno Bil.

9.5 Yn ei gyfarfod ar 14 Gorffennaf 2011, trafododd Comisiwn y Cynulliad yr angen am ddeddfwriaeth i egluro dyletswyddau'r Cynulliad Cenedlaethol a Chomisiwn y Cynulliad o ran darparu gwasanaethau dwyieithog: er mwyn rhoi'r dyletswyddau hynny ar sail statudol gadarn a chyflwyno Cynllun Ieithoedd Swyddogol newydd o dan y fframwaith

deddfwriaethol arfaethedig.

9.6 Bydd y fframwaith deddfwriaethol cadarn a thryloyw a amlinellir yn y Bil yn sicrhau hyder y cyhoedd ac Aelodau'r Cynulliad bod Comisiwn y Cynulliad yn ymrwymedig i ddarparu gwasanaethau dwyieithog rhagorol.

10 Costau a manteision

10.1 Mewn gwirionedd, mae darpariaethau'r Bil yn cynyddu'r angen i Gomisiwn y Cynulliad ddarparu cynllun sy'n amlinellu ei wasanaethau dwyieithog. Felly, bydd y costau yn seiliedig ar gwmpas y Cynllun leithoedd Swyddogol, mewn cysylltiad â'r dyletswyddau a gaiff eu gosod ar y Comisiwn o dan y Bil.

10.2 Mae rhai anawsterau yn gysylltiedig â mesur costau darparu gwasanaethau dwyieithog gan fod y gwasanaethau hyn wedi bod yn rhan o waith arferol y Cynulliad ers ei sefydlu ym 1999.

10.3 Er mwyn ystyried unrhyw gostau sy'n gysylltiedig â'r Bil, rydym wedi ceisio tynnu sylw at gostau rhai o'r gwasanaethau a ddarperir fel y cawsant eu hamlinellu yng Nghynllun Iaith Gymraeg 2007, a hefyd costau unrhyw wasanaethau ychwanegol a gaiff eu cynnwys yng Nghynllun leithoedd Swyddogol drafft 2012. Mae costau darparu gwasanaethau dwyieithog fel y cawsant eu hamlinellu yng Nghynllun Iaith Gymraeg 2007 yn cynnwys:

- Cyfieithu – Staff y Cynulliad a chontractwyr allanol;
- Hyfforddiant iaith Gymraeg – i Aelodau'r Cynulliad, eu staff cymorth a staff y Cynulliad;
- Contract Cyfieithu Testun Aelodau'r Cynulliad - cynllun i ddarparu gwasanaethau cyfieithu testun ar gyfer cyfieithu busnes etholaethol Aelodau'r Cynulliad.

10.4 Yn 2008-09, costau darparu Cofnod cwbl ddwyieithog o Drafodion y Cyfarfod Llawn, wedi'i gyhoeddi o fewn 24 awr i ddiwedd y Cyfarfod Llawn oedd dros £290,000. Yn 2009, cytunodd Comisiwn y Cynulliad i ddiwygio'r amser ar gyfer darparu cofnod cwbl ddwyieithog o drafodion y Cyfarfod Llawn fel ei fod yn cael ei gyhoeddi o fewn pum niwrnod

gwaith. Gweithredwyd y penderfyniad hwn o fis Medi 2009 wrth aros am adroddiad gan y Panel Adolygu Annibynnol ar Wasanaethau Dwyieithog. Cyhoeddodd y panel ei adroddiad ym mis Mai 2010 ac argymhellodd y dylai cofnod o drafodion y Cyfarfod Llawn gael ei gyhoeddi yn yr iaith a siaradwyd yn wreiddiol, ynghyd â chofnod o'r cyfieithu ar y pryd o Gymraeg i Saesneg. Daeth y gwaith o gyfieithu'r testun Saesneg i Gymraeg i ben ym mis Gorffennaf 2010.

10.5 Yn ei gyfarfod ar 14 Gorffennaf 2011, cytunodd Comisiwn y Pedwerydd Cynulliad i ailsefydlu'r gwasanaeth, ar yr amod bod y trefniadau hyn yn gynaliadwy yn y tymor hir ac yn dangos gwerth da am arian.

10.6 Yn ystod y cyfnod rhwng mis Gorffennaf a mis Tachwedd 2011, datblygodd swyddogion y Cynulliad opsiynau ar gyfer darparu Cofnod cwbl ddwyieithog o Drafodion y Cynulliad, yn seiliedig ar gyfartaledd o 36,000 o eiriau yn cael eu siarad yn Saesneg mewn Cyfarfod Llawn, wedi'i gyhoeddi ar-lein o fewn pum niwrnod gwaith, gan ddefnyddio dulliau cyfieithu peirianyddol, meddalwedd cof cyfieithu a sgiliau golygu a phrawfddarllen cyfieithydd er mwyn sicrhau ansawdd.

10.7 Yn seiliedig ar ganlyniadau gwaith ymchwil a phrofion, cyfrifir mai costau blynyddol cynhyrchu Cofnod cwbl ddwyieithog o Drafodion y Cyfarfod Llawn o fewn pum niwrnod gwaith yw tua £95k y flwyddyn.

10.8 Mae'r tabl isod yn amlinellu'r costau ar gyfer darparu gwasanaethau dwyieithog yn 2009-10, 2010-11 a'r costau arfaethedig ar gyfer 2011-12, 2012-13 a 2013-14.

Blwyddyn ariannol	2009/10 ¹	2010/11 ²	Amcangyfrif o gostau 2011/12	Amcangyfrif o gostau 2012/13	Amcangyfrif o gostau 2013/14
Gwasanaeth cyfieithu - contractwyr allanol	292,553	185,992	£142,500	£242.5k ³	£242.5k ⁴
Costau cyfieithu - costau staffio	476,327	521,726	£530k ⁵	£540k	£550k
Hyfforddiant iaith Gymraeg - staff y Cynulliad	10,680	18,688	£16.5	£17k ⁶ (yn seiliedig ar amcangyfrif o gostau 2011/2012)	£17k (yn seiliedig ar amcangyfrif o gostau 2011/12)
Hyfforddiant iaith Gymraeg - Aelodau'r Cynulliad a staff cymorth	14,722	11,287	£15.2k (yn seiliedig ar fis Mai i fis Tachwedd)	£16k (yn seiliedig ar amcangyfrif o gostau 2011/12)	£16k ⁷ (yn seiliedig ar amcangyfrif o gostau 2011/12)
Contract cyfieithu testun Aelodau'r Cynulliad	24,000 £400 y flwyddyn i bob Aelod (dyrennir i bob grŵp plaid ar sail pro rata)	24,000 £400 y flwyddyn i bob Aelod (dyrennir i bob grŵp plaid ar sail pro rata)	24,000 £400 y flwyddyn i bob Aelod (dyrennir i bob grŵp plaid ar sail pro rata)	24,000 £400 y flwyddyn i bob Aelod (dyrennir i bob grŵp plaid ar sail pro rata)	24,000 £400 y flwyddyn i bob Aelod (dyrennir i bob grŵp plaid ar sail pro rata)

¹ Yn seiliedig ar y cyfrifon terfynol a gyhoeddwyd.

² Ibid.

³ Yn cynnwys amcangyfrif o gostau ailsefydlu Cofnod cwbl ddwyieithog o Drafodion y Cyfarfod Llawn.

⁴ Contract yn amodol ar dendr ym mis Medi 2016.

⁵ Nid yw'r ffigurau ar gyfer 2012/13 a 2013/14 yn ystyried canlyniadau unrhyw drafodaethau ynghylch tâl yn y dyfodol.

⁶ Yn amodol ar dendr yn 2012.

⁷ Yn amodol ar dendr ym mis Ebrill 2015.

Manteision

10.9 Bydd y fframwaith deddfwriaethol a amlinellir yn y Bil yn sicrhau hyder y cyhoedd ac Aelodau'r Cynulliad bod Comisiwn y Cynulliad yn ymrwymedig i ddarparu gwasanaethau dwyieithog rhagorol. Bydd Deddf yn:

- gosod y sail statudol gadarn sydd ei hangen ar Gomisiwn y Cynulliad i lywodraethu ei drefniadau ar gyfer datblygu a darparu gwasanaethau dwyieithog;
- gosod dyletswydd ar Gomisiwn y Cynulliad i ddarparu Cynllun leithoedd Swyddogol sy'n amlinellu'r gwasanaethau dwyieithog y gall Aelodau'r Cynulliad a phobl Cymru eu disgwyl gan Gomisiwn y Cynulliad;
- cynyddu hyder y cyhoedd yn ymrwymiad y Cynulliad i wasanaethau dwyieithog;
- galluogi Comisiwn y Cynulliad i gyflwyno'i hun fel darparwr rhagorol o ran gwasanaethau dwyieithog o fewn y cyd-destun seneddol;
- cefnogi bwriad Comisiwn y Cynulliad i "ddefnyddio adnoddau'n ddoeth".

Rhan 3: Nodiadau esboniadol

Cymharu darpariaethau presennol Deddf Llywodraeth Cymru 2006 â'u ffurf ddiwygiedig o dan y Bil.

2006 Act (current)	2006 Act (as proposed under the Official Languages Bill)
Section 35	
<p>(1) The Assembly must, in the conduct of Assembly proceedings, give effect, so far as is both appropriate in the circumstances and reasonably practicable, to the principle that the English and Welsh languages should be treated on a basis of equality.</p>	<p>(1) The official languages of the Assembly are English and Welsh.</p> <p>(1A) The official languages must, in the conduct of Assembly proceedings, be treated on a basis of equality.</p> <p>(1B) All persons have the right to use either official language when participating in Assembly proceedings.</p> <p>(1C) Reports of Assembly proceedings must, in the case of proceedings which fall within section 1 (5) (a) (proceedings of the Assembly), contain a record of what was said, in the official language in which it was said, and also a full translation into the other official language.</p> <p>(1D) Paragraph 8 of Schedule 2 makes provision about how the Assembly Commission must enable effect to be given to subsections (1) to (1C).</p>
Schedule 2 Paragraph 8	
<p>(3) In the exercise of the functions of the Assembly Commission effect must be given, so far as is both</p>	<p>(3) The Assembly Commission must, in the exercise of its</p>

appropriate in the circumstances and reasonably practicable, to the principle that the English and Welsh languages should be treated on a basis of equality.

functions—

(a) treat the official languages of the Assembly on a basis of equality, and

(b) make arrangements for enabling effect to be given to section 35(1), (1A), (1B) and (1C).

(4) The Assembly Commission must—

(a) adopt; and,

(b) publish,

a scheme, to be known as the Assembly Commission's Official Languages Scheme ("the Scheme"), specifying the measures which it proposes to take in order to comply with its duties under sub-paragraph (3).

(5) The Scheme must include (amongst other things) provision for—

(a) simultaneous interpretation from one official language into the other in all Assembly proceedings,

(b) publication of documents in both official languages, subject to any exceptions identified in the Scheme,

(c) public engagement with Assembly proceedings through the medium of either of the official languages,

(d) the setting of targets and timescales relating to implementation of the Scheme,

(e) the allocation of responsibilities

	<p>for implementing the Scheme,</p> <p>(f) objective means of measuring progress in implementing the Scheme, and</p> <p>(g) a strategy for ensuring that the staff of the Assembly have, collectively, the language skills necessary to enable the Scheme to be implemented.</p> <p>(7) The Scheme must include provision relating to the receipt, investigation and consideration of complaints of failures to give effect to provisions of the Scheme.</p> <p>(8) The Assembly Commission must, in respect of each financial year, lay before the Assembly a report setting out how the Commission has, during the year in question, given effect to the Scheme.</p> <p>(9) The Assembly Commission—</p> <p>(a) must review the Scheme as soon as is reasonably practicable after each ordinary general election, or after an extraordinary general election to which section 5 (5) applies, and</p> <p>(b) may, at any time, adopt a new Scheme or an amendment to the existing Scheme.</p> <p>(10) The Assembly Commission may not adopt a Scheme, or an amendment to a Scheme, unless (whether before or after the coming</p>
--	--

	<p>into force of this paragraph)—</p> <p>(a) a draft of the Scheme (or of the amendment) has been—</p> <p>(i) published; and</p> <p>(ii) laid before the Assembly,</p> <p>(b) the Assembly Commission has considered any representations made about the draft Scheme (or draft amendment) by—</p> <p>(i) members of the public; and,</p> <p>(ii) the Assembly; and,</p> <p>(c) the Scheme (or the amendment) incorporating such modifications as the Assembly Commission may, having considered such representations, make, has been laid before and approved by resolution of, the Assembly.</p> <p>(11) The Assembly Commission must give effect to the Scheme.</p>
--	---

11. Adran 1

11.1 Byddai'r adran hon yn disodli adran 35(1) o Ddeddf 2006 gyda phum is-adran newydd.

11.2 Mae is-adran (1) newydd yn cynnwys datganiad clir a syml mai Cymraeg a Saesneg yw ieithoedd swyddogol y Cynulliad Cenedlaethol. Mae'r agwedd hon yn adlewyrchiad o ddeddfwriaeth a gaiff ei defnyddio i lywodraethu deddfwrfeydd dwyieithog eraill (ee Deddf Ieithoedd Swyddogol New Brunswick 2002, adran 6: "English and French are the official languages of the Legislature").

- 11.3 Mae is-adran (1A) yn ailddatgan, mewn ffurf newydd, yr egwyddor a gaiff ei chynnwys yn adran 35(1) ar hyn o bryd. Mae'r newid yn y ffordd y mynegir y ddyletswydd, sy'n cyfeirio'n syml at ddyletswydd i drin yr ieithoedd "ar y sail eu bod yn gyfartal", yn adlewyrchu newid cymesur a wnaed gan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 (gweler adran 1(3) (a) "deddfiadau sy'n ... ei gwneud yn ofynnol i'r Gymraeg a'r Saesneg gael eu trin ar y sail eu bod yn gyfartal yn nhrefodion Cynulliad Cenedlaethol Cymru".)
- 11.4 Mae is-adran (1B) eto yn adlewyrchu arfer deddfwrfeydd dwyieithog eraill o roi'r hawl i ddefnyddio'r ddwy iaith yn glir ar wyneb y ddeddfwriaeth lywodraethu (gweler Deddf Ieithoedd Swyddogol New Brunswick 2002, adran 6: "and everyone has the right to use either language in any debate and other proceedings of the Legislative Assembly or its Committees"). Mae'r is-adran yn ei gwneud yn glir hefyd nad Aelodau'r Cynulliad yn unig sydd â'r hawl i ddefnyddio'r Gymraeg neu'r Saesneg, ond hefyd pobl eraill sy'n cymryd rhan yn y trafodion, ee tystion sy'n rhoi tystiolaeth mewn pwyllgorau (mae hyn yn unol ag arferion presennol ond ni chaiff ei nodi'n benodol yn y ddeddfwriaeth.)
- 11.5 Ychwanegwyd is-adran (1C) yn ystod Cyfnod 2 o ystyriaeth y Cynulliad o'r Bil. Mae'n ei gwneud yn ofynnol bod adroddiadau o drafodion y Cynulliad Cenedlaethol fel y'i diffinnir yn adran 1(5)(a) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (trafodion y Cynulliad cyfan mewn cyfarfod llawn) yn gwbl ddwyieithog. Golyga hyn nid yn unig cofnod o'r hyn a ddywedwyd yn yr iaith a siaradwyd, ond hefyd cyfieithiad llawn i'r iaith swyddogol arall. Effaith hyn fyddai diogelu arfer presennol y Cynulliad mewn statud.
- 11.6 Ar yr amod bod Comisiwn y Cynulliad yn darparu staff a chyfleusterau eraill i alluogi'r Cynulliad Cenedlaethol i wneud ei waith, gall y Cynulliad gydymffurfio â'r dyletswyddau o dan is-adrannau (1A) hyd at (1C). Mae is-adran (1D) yn cyfeirio at baragraff 8 o Atodlen 2, sy'n cynnwys y dyletswyddau perthnasol o ran Comisiwn y Cynulliad.

12. Adran 2

- 12.1 Mae'r adran hon yn disodli is-baragraff 8(3) o Atodlen 2 i Ddeddf 2006 gyda naw is-baragraff newydd sy'n cynnwys darpariaethau manwl yn

diffinio dyletswyddau Comisiwn y Cynulliad o ran defnyddio'r Gymraeg a'r Saesneg, gan gynnwys cymorth Comisiwn y Cynulliad i alluogi'r Cynulliad Cenedlaethol i gyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 35(1) - (1C) o Ddeddf 2006 (fel y'i diwygiwyd).

- 12.2 Yn gyntaf, mae'r is-baragraff (3) newydd yn ei gwneud yn ofynnol i Gomisiwn y Cynulliad drin y ddwy iaith ar y sail eu bod yn gyfartal. Mae hyn yn ailddatgan, ar ffurf newydd, y ddyletswydd yn yr is-baragraff (3) cyfredol yn Atodlen 2. Fodd bynnag, mae'r is-baragraff newydd yn ei gwneud yn ofynnol i Gomisiwn y Cynulliad wneud trefniadau ar gyfer galluogi'r Cynulliad Cenedlaethol i gyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 35 (fel y'i diwygiwyd).
- 12.3 Mae gweddill yr is-baragraffau newydd yn ategu'r dyletswyddau o dan is-baragraff (3) drwy ddarparu dulliau ar gyfer sicrhau cydymffurfiad effeithiol â'r dyletswyddau hynny.
- 12.4 Y dull o wneud hynny yw drwy Gynllun Ieithoedd Swyddogol sy'n nodi'r mesurau y mae Comisiwn y Cynulliad yn bwriadu eu cymryd er mwyn cydymffurfio â'i ddyletswyddau o dan is-baragraff (3). Mae is-baragraffau (4), (8) a (9) yn ymdrin â'r broses o baratoi, mabwysiadu ac adolygu'r Cynllun. Bydd angen cyhoeddi drafft o'r Cynllun a'i osod gerbron y Cynulliad Cenedlaethol a bydd angen i Gomisiwn y Cynulliad ystyried sylwadau a gaiff eu gwneud amdano gan y cyhoedd a'r Cynulliad Cenedlaethol (er enghraifft adroddiad unrhyw un o bwyllgorau'r Cynulliad a gaiff gais i ystyried y Cynllun drafft). Yna, bydd angen i'r Cynllun (fel y'i diwygiwyd o ganlyniad i'r broses ymgynghori hon) gael ei gymeradwyo gan y Cynulliad Cenedlaethol.
- 12.5 Bydd y darpariaethau hyn yn ei gwneud yn glir y bydd Comisiwn y Cynulliad yn atebol yn uniongyrchol i'r Cynulliad Cenedlaethol (ac felly i'r cyhoedd) am ei wasanaethau dwyieithog, yn hytrach nag i Gomisiynydd y Gymraeg a Gweinidogion Cymru fel yn achos cyrff cyhoeddus y gosodir safonau arnynt o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011.
- 12.6 Mae is-baragraff (9) yn ei gwneud yn glir y bydd yn agored i Gomisiwn y Cynulliad fabwysiadu Cynllun a baratowyd yn unol â gofynion y Ddeddf, hyd yn oed os bydd y camau angenrheidiol wedi cael eu cymryd cyn i'r Ddeddf ddod i rym. Bydd hyn yn galluogi unrhyw

ddiwygiadau i'r Cynllun Iaith presennol gael eu mabwysiadu fel y Cynllun Ieithoedd Swyddogol hyd yn oed os bydd y gwaith o'i baratoi ac ymgynghori arno wedi dechrau cyn i'r Ddeddf arfaethedig ddod i rym.

- 12.7 Mae is-baragraffau (5) a (6) yn ymdrin â rhai (ond nid yr holl) faterion y bydd angen i'r Cynllun ymdrin â hwy. Yn is-baragraff (5) nodir y pynciau hyn yn benodol:
- (a) cyfieithiad ar y pryd o drafodion y Cynulliad Cenedlaethol;
 - (b) cyhoeddi dogfennau'n ddwyieithog;
 - (c) ymgysylltiad y cyhoedd â thrafodion y Cynulliad;
 - (d) pennu targedau ac amserlenni ar gyfer gweithredu'r Cynllun;
 - (e) dyrannu cyfrifoldebau ar gyfer gweithredu'r Cynllun;
 - (f) dulliau gwrthrychol o fesur cynnydd o ran gweithredu'r Cynllun; ac
 - (g) strategaeth sgiliau iaith ar gyfer staff.
- 12.8 Mae is-baragraff (6) yn cynnwys gofyniad penodol i'r Cynllun gynnwys darpariaethau ynghylch cwynion o fethiant i roi effaith i ddarpariaethau'r Cynllun yn dod i law a'r broses o ystyried ac ymchwilio i'r cwynion hynny. Mae hyn yn dilyn awgrymiadau a wnaed yn ystod yr ymgynghoriad ar ddrafft o'r Bil, ac mae'n adeiladu ar yr arfer o dan Gynllun Iaith Gymraeg 2007.
- 12.9 Mae is-baragraff (7) yn cyflwyno dyletswydd ar Gomisiwn y Cynulliad i baratoi adroddiad blynyddol ar weithredu'r Cynllun, a osodir gerbron y Cynulliad Cenedlaethol. Mae hyn hefyd yn ymateb i sylwadau a wnaed yn ystod yr ymgynghoriad. Y flwyddyn ariannol fydd y flwyddyn adrodd.
- 12.10 Mae is-baragraff (8) yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn adolygu'r Cynllun cyn gynted ag sy'n bosibl ar ôl pob etholiad cyffredinol cyffredin o Aelodau Cynulliad. Mae is-baragraff (9) yn nodi'r gofynion ymgynghori a amlinellir ym mharagraff 12.4 uchod. Yr un fydd y trefniant ar ôl pob etholiad cyffredinol anghyffredin, sy'n golygu (yn sgîl adran 5(5) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006) na chynhelir etholiad cyffredinol cyffredin dilynol os caiff yr etholiad anghyffredin ei gynnal llai na chwe mis cyn y dyddiad y byddai'r etholiad cyffredin wedi'i gynnal fel arall.

12.11 Mae is-baragraff (10) yn ei gwneud yn glir ei bod yn ddyletswydd ar Gomisiwn y Cynulliad i'w roi ar waith wedi iddo gael ei fabwysiadu yn ffurfiol.

13. Adran 3

13.1 Mae'r adran hon yn cynnwys teitl y ddeddfwriaeth ac yn darparu i'r ddeddfwriaeth ddod i rym y diwrnod ar ôl i'r Bil dderbyn Cydsyniad Brenhinol.

Atodiad A

Cwestiynau'r ymgynghoriad

Rhan 1 – Bil Ieithoedd Swyddogol (Cymru)

Materion y croesewir sylwadau arnynt yn benodol

- A. A ydych yn cytuno bod angen diweddarau'r fframwaith cyfreithiol mewn perthynas â safonau'r ddarpariaeth ddwyieithog yng ngwaith y Cynulliad Cenedlaethol?
- B. Beth yw eich barn ar ddull cyffredinol y Bil, sef y dylid cynnwys datganiadau clir ynglŷn â statws y Gymraeg a'r Saesneg yn nhrefodion y Cynulliad Cenedlaethol ac yn swyddogaethau Comisiwn y Cynulliad ar wyneb Deddf Llywodraeth Cymru 2006?
- C. A ydych yn cytuno y dylai'r datganiadau hyn ei gwneud yn glir fod y Gymraeg a'r Saesneg yn ieithoedd swyddogol y Cynulliad Cenedlaethol ac y dylid eu trin ar y sail eu bod yn gyfartal?
- D. Os na, pa ddull amgen ddylid ei fabwysiadu?
- E. A ydych yn cytuno y dylai manylion y modd y dylid cyflawni'r egwyddor o ddwyieithrwydd yn ymarferol gael eu cynnwys mewn Cynllun Gwasanaethau Dwyieithog i'w baratoi gan Gomisiwn y Cynulliad?
- F. Os na, drwy ba ffyrdd eraill y dylid diffinio'r manylion am sut y caiff dwyieithrwydd ei gyflawni yn y Cynulliad Cenedlaethol?
- G. A ydych yn cytuno y dylai Comisiwn y Cynulliad, wrth lunio a gweithredu'r Cynllun, fod yn atebol i'r Cynulliad Cenedlaethol?
- H. A ddylai Comisiwn y Cynulliad fod yn atebol i unrhyw un arall, naill ai yn ogystal â bod yn atebol i'r Cynulliad Cenedlaethol neu ar wahân i'r Cynulliad Cenedlaethol?
- I. A ddylai'r bylchau rhwng cyfnodau adolygu'r Cynllun Gwasanaethau Dwyieithog gael eu cysylltu â phob tymor Cynulliad Cenedlaethol (p'un ai yw'r tymor yn un pedair neu bum mlynedd)?
- J. Os na, pa mor aml ddylid ei adolygu?
- K. A oes gennych unrhyw sylwadau ar ddarpariaethau manwl y Bil drafft?

Rhan 2 – Y Cynllun Gwasanaethau Dwyieithog

Materion y croesewir sylwadau arnynt yn benodol:

- A. A ydych yn cytuno y dylai'r manylion ynghylch sut y bydd yr egwyddor o ddwyieithrwydd yn cael ei wireddu'n ymarferol gael eu gosod allan mewn cynllun gwasanaethau dwyieithog a gaiff ei baratoi gan Gomisiwn y Cynulliad a'i gymeradwyo gan y Cynulliad Cenedlaethol?
- B. Os nad ydych yn cytuno â hyn, sut ddylai'r manylion ynghylch y modd y bydd dwyieithrwydd yn cael ei wireddu yn y Cynulliad Cenedlaethol gael eu diffinio?
- C. Beth yw eich barn chi ar ddull cyffredinol y cynllun o fynd i'r afael a'r mater hwn?
- D. Pa ddulliau amgen y dylid eu mabwysiadu, os o gwbl?
- E. Beth yw eich barn chi am y gwasanaethau dwyieithog y byddwn yn eu darparu i aelodau'r cyhoedd, yn unol â chynigion y cynllun?
- F. A ydym wedi cynnig ffyrdd priodol a digonol i'r Cynulliad Cenedlaethol sicrhau bod y sawl sydd am gyfathrebu â ni yn Gymraeg yn cael eu trin mewn modd teg?
- G. Yn eich barn chi, a oes unrhyw bwyntiau ychwanegol na chafodd eu cwmpasu gan y cynllun drafft?
- H. A oes gennych unrhyw sylwadau pellach i'w gwneud ynghylch y cynllun a sut y caiff ei weithredu?

Atodiad B



Y Cynllun Ieithoedd Swyddogol draft

Cyflwyniad

1. Cynulliad Cenedlaethol Cymru (y Cynulliad Cenedlaethol) yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif. Mae'n cynnwys 60 o Aelodau Cynulliad a etholwyd gan bobl Cymru.
2. Mae Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Comisiwn y Cynulliad) yn gwasanaethu'r Cynulliad Cenedlaethol i feithrin sefydliad democrataidd cryf, hygyrch a blaengar, a deddfwrfa sy'n darparu'n effeithiol ar gyfer pobl Cymru.

Cefndir

3. Sefydlwyd Comisiwn y Cynulliad ym mis Mai 2007 i sicrhau bod gan y Cynulliad Cenedlaethol yr eiddo, y staff a'r gwasanaethau sy'n angenrheidiol iddo allu cyflawni ei rôl yn effeithiol ac effeithlon.
4. Mae Comisiwn y Cynulliad yn cynnwys y Llywydd, a phedwar Aelod Cynulliad arall, a enwebir gan bob un o'r pedwar grŵp plaid. Mae'r pum Comisiynydd yn atebol i'r Cynulliad Cenedlaethol am swyddogaethau Comisiwn y Cynulliad. I helpu i gyflawni'r swyddogaethau hyn, mae'r Comisiynwyr yn gyfrifol am bortffolios trawsbynciol. Rhodri Glyn Thomas AC yw Comisiynydd y Cynulliad sydd â chyfrifoldeb dros y Gymraeg. Ceir rhagor o wybodaeth am strwythurau, y rhaglen waith a phobl y Cynulliad Cenedlaethol yma <http://www.cynulliadcymru.org>
5. Fel prif sefydliad democrataidd Cymru, mae dyletswydd ar y Cynulliad Cenedlaethol i alluogi pob dinesydd ac Aelod Cynulliad i gael gwybodaeth am y broses ddemocrataidd, ac i gyfrannu'n llawn ati,

drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg.

6. Mae Adran 35(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn nodi'r hyn a ganlyn ar hyn o bryd, yng nghyd-destun Trin yn gyfartal:

(1)The Assembly must, in the conduct of Assembly proceedings, give effect, so far as is both appropriate in the circumstances and reasonably practicable, to the principle that the English and Welsh languages should be treated on a basis of equality.

7. Mae paragraff 8 (3) o Atodlen 2 i'r Ddeddf, sy'n ymwneud â'r egwyddorion y mae swyddogaethau Comisiwn y Cynulliad i'w harfer yn unol â hwy, yn ychwanegu'r hyn a ganlyn:

(3)... effect must be given, so far as is both appropriate in the circumstances and reasonably practicable, to the principle that the English and Welsh languages should be treated on a basis of equality.

8. Y bwriad yw y bydd Bil Cynulliad Cenedlaethol Cymru (leithoedd Swyddogol), a gyflwynwyd gan Gomisiwn y Cynulliad ac y mae'r Cynulliad yn ei ystyried ar hyn o bryd (gweler isod), yn cryfhau ac yn egluro'r ffyrdd y caiff y dyletswyddau cyfreithiol hyn eu mynegi.

9. Mae Adran 111 (5) o'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol bod yn rhaid gwneud Deddfau'r Cynulliad yn Gymraeg ac yn Saesneg.

10. Wrth ddarparu gwasanaethau dwyieithog, mae Comisiwn y Cynulliad yn anelu at sicrhau bod y Cynulliad yn sefydliad gwirioneddol ddwyieithog.

11. Mae'r Cynllun hwn, sydd i'w baratoi ac i'w fabwysiadu'n unol â darpariaethau'r paragraff 8(3) newydd arfaethedig o Atodlen 2 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, a Bil Cynulliad Cenedlaethol Cymru (leithoedd Swyddogol), yn nodi sut y mae Comisiwn y Cynulliad yn bwriadu darparu gwasanaethau dwyieithog i Aelodau'r Cynulliad a'r cyhoedd. Mae'n cynnwys:

- uchelgais y Cynulliad Cenedlaethol i fod yn sefydliad gwirioneddol ddwyieithog sy'n galluogi Aelodau'r Cynulliad a staff i weithio yn y ddwy iaith;
 - trefniadau dwyieithog wrth baratoi ar gyfer trafodion y Cynulliad Cenedlaethol yn y Cyfarfod Llawn a'r pwyllgorau, ac wrth eu cynnal a'u cofnodi;
 - gohebiaeth ddwyieithog â'r cyhoedd i annog pobl i gymryd rhan yn y broses ddemocrataidd; a
 - sut y byddwn yn monitro sgiliau dwyieithog staff y Cynulliad ac yn eu hannog i'w defnyddio.
12. Bydd unrhyw ohebiaeth rhwng y Cynulliad Cenedlaethol â'r cyhoedd yng Nghymru na ddisgrifiwyd yn benodol yma yn cael ei chynhyrchu mewn modd sy'n cyd-fynd â'r egwyddorion cyffredinol a ymgorfforir yn y Cynllun hwn, a amlinellwyd yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006.
13. Mae Comisiwn y Cynulliad hefyd yn darparu gwybodaeth mewn fformatau hygyrch, gan gynnwys Braille, print mawr a sain, ac mae llawer o'n gwybodaeth gyhoeddus ar gyfer ymwelwyr ag ystâd y Cynulliad Cenedlaethol ar gael mewn ieithoedd eraill.

Llywodraeth Cymru a Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011

14. Nid yw'r Cynllun hwn yn ymwneud â swyddogaethau Llywodraeth Cymru, sydd â'i threfniadau ei hun ar gyfer darparu ei gwasanaethau dwyieithog. Nid yw ychwaith yn cael ei reoli gan y fframwaith cyfreithiol a nodir ym Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.
15. Mae dyletswyddau'r Cynulliad Cenedlaethol a Chomisiwn y Cynulliad o ran darparu gwasanaethau dwyieithog hyd yn hyn wedi'u modelu ar Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993. O dan y fframwaith deddfwriaethol hwn, datblygodd Comisiwn y Cynulliad Gynllun Iaith Gymraeg ar gyfer y Trydydd Cynulliad. Disodlwyd Deddf yr Iaith Gymraeg gan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 sy'n disodli'r system o Gynlluniau Iaith Gymraeg gan system newydd o "safonau". Bydd y system newydd hon yn cymhwyso safonau cyffredin ar draws ystod o gyrff cyhoeddus. Caiff y safonau hyn eu gosod drwy orchmynion a wneir gan Weinidogion Cymru.

16. gofio eu sefyllfa gyfansoddiadol arbennig yng Nghymru a'r egwyddor gyfansoddiadol sylfaenol y dylai Gweinidogion Cymru fod yn atebol i'r Cynulliad yn hytrach na'r gwrthwyneb, nid yw'r Cynulliad Cenedlaethol na Chomisiwn y Cynulliad wedi'u cynnwys yn nhrefniadau newydd Mesur y Gymraeg (Cymru) 2012 ac nid ydynt ychwaith yn ddarostyngedig i'w drefniadau cyfreithiol newydd.
17. O ystyried hyn, yn ystod ei gyfarfod ym mis Gorffennaf 2011, cytunodd Comisiwn y Cynulliad i gynnig Bil newydd, sef Bil Ieithoedd Swyddogol, er mwyn sicrhau bod y dyletswyddau cyfreithiol sy'n ymwneud â lle'r Gymraeg yng ngwaith y Cynulliad Cenedlaethol a Chomisiwn y Cynulliad yn cael eu diweddarau a'u rhoi ar sail statudol gadarn.

Diffiniad o'r 'cyhoedd'

18. Yn y Cynllun hwn, ystyr y term 'cyhoedd' yw unigolion, personau cyfreithiol a chyrrff anghorfforaethol. Mae'n cynnwys y cyhoedd yn gyffredinol, neu ran o'r cyhoedd, yn ogystal ag aelodau unigol o'r cyhoedd. Mae'r term yn cynnwys cyrrff gwirfoddol ac elusennau. Daw cyfarwyddwyr ac unigolion eraill sy'n cynrychioli cwmnïau cyfyngedig o dan y term 'cyhoedd' hefyd. Fodd bynnag, nid yw'n cynnwys pobl mewn cyrrff cyhoeddus wrth iddynt gyflawni eu dyletswyddau swyddogol.
19. Nid yw'r Cynllun hwn yn ymdrin â gohebiaith unigol rhwng Aelodau'r Cynulliad a'u hetholwyr.

Awdurdod dros gydgysylltu'r Cynllun hwn a chyfrifoldeb amdano

20. Mae'r Cynulliad Cenedlaethol a Chomisiwn y Cynulliad yn awdurdodi'r Cynllun hwn ac yn rhoi cymorth a chymeradwyaeth lwyr iddo.
21. Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad Cenedlaethol sydd â'r cyfrifoldeb cyffredinol dros sicrhau y caiff y Cynllun hwn ei weithredu a'i fonitro'n flynyddol. Uwch-aelod o'r tîm rheoli fydd yn gyfrifol am gydgysylltu, monitro a, phan fydd angen, cynghori ar adolygu cynnwys y Cynllun.
22. Staff y Cynulliad sy'n gyfrifol am sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r mesurau yn y Cynllun ac am gydymffurfio â hwy wrth iddynt wneud eu

gwaith o ddydd i ddydd.

23. Mae gan bob rheolwr gyfrifoldeb wedi'i ddirprwyo iddo dros:
- weithredu'r agweddau hynny ar y Cynllun sy'n berthnasol i'w waith;
 - annog staff i ddefnyddio'u sgiliau ieithyddol;
 - sicrhau bod aelodau newydd o staff yn ymwybodol o ethos dwyieithog y Cynulliad Cenedlaethol, uchelgais y Cynllun a'r gwasanaethau a amlinellir.
24. Bydd pob maes gwasanaeth o fewn y Cynulliad yn enwebu Cydgysylltydd Cynllun Ieithoedd Swyddogol a fydd yn gyfrifol am:
- ddarparu cyngor ar weithredu'r Cynllun yn eu meysydd hwy;
 - adolygu'r cynnydd yn erbyn gofynion y Cynllun bob chwarter blwyddyn drwy Fforwm Cydgysylltwyr y Cynllun Ieithoedd Swyddogol;
 - hysbysu'r Gwasanaeth Cyfieithu a Chofnodi o unrhyw newidiadau i'r ymrwymadau darparu yn barhaus.

Monitro ac adrodd

25. Bydd y cynnydd o ran cyflawni'r Cynllun hwn yn cael ei fonitro a'i fesur.
26. Bob blwyddyn ariannol, byddwn yn monitro sut y mae pob gwasanaeth unigol yn cydymffurfio â'r Cynllun ac yn cyflwyno adroddiad i Gomisiwn y Cynulliad ei ystyried. Gall y trefniadau monitro gynnwys cynnal arolwg o farn unigolion a sefydliadau sydd wedi cael gwasanaeth dwyieithog gan y Cynulliad Cenedlaethol.
27. Ar ôl i Gomisiwn y Cynulliad ei ystyried, bydd yr adroddiad cydymffurfio blynyddol yn cael ei osod gerbron y Cynulliad Cenedlaethol.

Adolygu a diweddarau'r Cynllun

28. Bydd y Cynllun hwn yn cael ei adolygu ym mis Ionawr 2016 yn barod ar gyfer y Cynulliad nesaf. Bydd yn mesur y cynnydd mewn perthynas â chyflawni'r bwriad i fod yn sefydliad gwirioneddol ddwyieithog ac yn dadansoddi unrhyw newidiadau o ran sut y cynigir gwasanaethau

dwyeithog.

29. Bydd yn rhaid i unrhyw newidiadau arfaethedig i'r Cynllun hwn gael eu cymeradwyo gan Gomisiwn y Cynulliad a'r Cynulliad Cenedlaethol yn gyntaf.
30. Ni chaiff Comisiwn y Cynulliad fabwysiadu Cynllun drafft neu welliant arfaethedig oni bai:
 - fod y Cynllun wedi'i gyhoeddi;
 - bod ymgynghoriad cyhoeddus wedi cael ei gynnal ar y Cynllun, a bod unrhyw gyflwyniadau wedi cael eu hystyried;
 - eu bod wedi'u gosod gerbron y Cynulliad Cenedlaethol; neu
 - eu bod wedi'u cymeradwyo drwy benderfyniad y Cynulliad Cenedlaethol.

Rhoi cyhoeddusrwydd i'n gwasanaethau dwyeithog a'u hyrwyddo

31. Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod Aelodau'r Cynulliad, y cyhoedd a staff y Cynulliad yn ymwybodol o'r Cynllun hwn a'r gwasanaethau a ddarperir. Byddwn yn rhoi cyhoeddusrwydd i'n gwasanaethau dwyeithog drwy:
 - hyrwyddo bodolaeth y Cynllun wrth ymgysylltu â'r cyhoedd a'n rhanddeiliaid;
 - gosod y Cynllun mewn man amlwg ar ein gwefan;
 - cynnwys cyfeiriadau at y Cynllun mewn bwletinâu staff a gohebiaeth arall;
 - rhoi'r deunyddiau 'laith Gwaith' i staff sy'n siarad Cymraeg ym mhob man cyhoeddus ar ystâd y Cynulliad Cenedlaethol;
 - sicrhau y gellir cynnig ein holl wasanaethau cyhoeddus, hyd eithaf ein gallu, yn ddwyieithog pan fydd y cyhoedd yn cysylltu â ni am y tro cyntaf, boed hynny ar lafar, wyneb-yn-wyneb, yn ysgrifenedig neu drwy ddarparwyr gwasanaeth eraill ar ein rhan;
 - cynnwys gwybodaeth am y Cynllun yn y rhaglen gynefino ar gyfer Aelodau newydd y Cynulliad, eu staff cymorth a staff y Cynulliad.
 - Sicrhau bod hyfforddiant mewn ymwybyddiaeth ieithyddol yn rhan o'r broses gynefino orfodol ar gyfer cyflogeion newydd.

Ymdrin â chwynion

32. Ein harfer safonol fydd sicrhau bod gwasanaethau o safon dda ar gael yn Gymraeg a Saesneg ar yr un pryd. Byddwn yn hyrwyddo'r gwasanaethau sydd ar gael fel y nodwyd, ac yn cyngori ein cwsmeriaid pan na fydd hynny'n bosibl.
33. Rydym am i'r cyhoedd, Aelodau'r Cynulliad a staff ein hysbysu ynghylch enghreifftiau o ddiffyg cydymffurfio â'r Cynllun cyn gynted â phosibl. Bydd hyn yn ein galluogi i gywiro'r sefyllfa, i gau unrhyw fylchau, i ddysgu gwersi ac i wella'r gwasanaeth yr ymdrechwn i'w ddarparu.
34. Byddwn yn ymdrin â chwynion yn unol â Chod Ymarfer y Cynulliad Cenedlaethol ar Gwynion.
35. Mae'r Cod yn caniatáu i ni ystyried cwynion sy'n ymwneud â'r materion a ganlyn:
 - Camweinyddu. Yn gyffredinol, mae camweinyddu'n golygu gweinyddu gwael neu gamddefnyddio rheolau. Mae'r rhestr isod yn cynnwys enghreifftiau o gamweinyddu:
 - Oedi heb fod angen;
 - Rhoi gweithdrefnau diffygiol ar waith neu beidio â dilyn y gweithdrefnau priodol;
 - Peidio â dweud wrth aelod o'r cyhoedd os oes ganddo hawl i apelio;
 - Gweithredu mewn ffordd sy'n annheg neu sy'n dangos tuedd neu ragfarn;
 - Rhoi cyngor camarweiniol neu annigonol;
 - Gwrthod ateb cwestiynau rhesymol;
 - Bod yn anghwrtais neu fetu ag ymddiheuro'n briodol;
 - Gwneud camgymeriadau wrth ymdrin â chais;
 - Peidio â chynnig ateb addas pan fyddai hynny'n briodol;
 - Peidio â darparu gwybodaeth y gofynnwyd amdani o dan y Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth;
 - Peidio â darparu gwasanaeth yr oeddem yn bwriadu'i ddarparu neu y mae'n rhaid i ni ei ddarparu yn ôl y gyfraith, neu beidio â darparu gwasanaeth o'r safon ofynnol;

- Peidio â bodloni gofynion ein Cynllun Ieithoedd Swyddogol.

36. Ni fyddwn yn ystyried y materion a ganlyn o dan y Cod hwn:

- cwynion am benderfyniadau lle na chafwyd unrhyw gamweinyddu, hynny yw, nid oes modd defnyddio'r Cod i gwyno am benderfyniad oherwydd nad yw rhywun yn cytuno ag ef;
- cwynion am ymddygiad neu fuddiannau Aelodau Cynulliad o ran materion personol neu faterion sy'n ymwneud â'u hetholaethau; ymdrinnir â materion o'r fath [o dan drefn gwyno arall](#);
- cwynion am faterion personél.

37. Gallwch fynd ati i gwyno drwy:

- Yn y lle cyntaf, gyflwyno eich cwyn neu'ch pryder i swyddog yr ydych wedi bod yn delio ag ef.
- Os nad yw hyn yn ateb eich pryder dylech wneud cwyn ffurfiol;
- Gallwch gwyno drwy anfon e-bost, ffacs neu lythyr atom, neu drwy lenwi'r [ffurflen gwyno](#);
- Y Prif Weithredwr a'r Clerc neu berson a enwebir ganddi ee yr uwch-reolwr sydd â chyfrifoldeb dros weithredu'r Cynllun Ieithoedd Swyddogol, fydd yn ymchwilio i'ch cwyn;
- Byddwn yn ymateb cyn pen 15 diwrnod gwaith ar ôl y dyddiad y daw'ch cwyn i law;
- Os nad ydych yn fodlon ar beth a ddaw o hynny, gall Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, neu'r Comisiynydd Gwybodaeth, ystyried eich cwyn.

38. Os oes angen eglurhad gan Gomisiwn y Cynulliad arnoch am unrhyw agwedd ar y Cynllun Ieithoedd Swyddogol, gallwch gysylltu â:

Rheolwr y Cynllun Ieithoedd Swyddogol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA
Ffôn: 029 2089 8647
E-bost: GwasanaethauDwyieithog@cymru.gov.uk

Uchelgais y Cynulliad Cenedlaethol

39. Uchelgais y Cynulliad Cenedlaethol yw bod yn sefydliad gwirioneddol ddwyieithog.
40. Mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn ystyried bod y Cynllun hwn yn galluogi i'r uchelgais hwnnw gael ei wireddu.
41. Mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn sefydliad lle gall Aelodau'r Cynulliad a'r cyhoedd ddewis gweithio neu gyfathrebu drwy'r Gymraeg, y Saesneg, neu yn y ddwy iaith. Golyga hyn y dylid annog pob aelod o staff i feddu ar rhai sgiliau sy'n briodol i'w swyddi yn y ddwy iaith, sy'n amrywio o'r gallu i wneud cyfarchion sylfaenol i'r gallu i ddrafftio a chyfieithu dogfennau cymhleth yn y ddwy iaith.
42. Diben strategaethau ac uchelgeisiau'r Cynulliad Cenedlaethol yw sicrhau bod gan y ddwy iaith yr un statws o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.
43. I wneud hynny, rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol:
 - allu ymgymryd â phob agwedd ar ei fusnes yn Gymraeg a Saesneg ar sail gyfartal;
 - gwarantu y bydd unrhyw broses ymgynghori rhwng y Cynulliad Cenedlaethol a phobl Cymru yn gwbl ddwyieithog;
 - sicrhau bod unrhyw gyfathrebu rhwng y Cynulliad Cenedlaethol a phobl Cymru yn ddwyieithog.
44. I wireddu'r uchelgais hwn, byddwn yn ystyried y ffactorau a ganlyn:
 - y ddarpariaeth bresennol o wasanaethau dwyieithog;
 - yr arfer gorau y mae sefydliadau eraill yn ei ddangos wrth gynnig gwasanaethau dwyieithog;
 - nifer y staff dwyieithog ar hyn o bryd, a chymryd pob cyfle i gynyddu'r nifer hwnnw;
 - cyfyngiadau ariannol a blaenoriaethau sy'n cystadlu;
 - y gwersi a ddysgir o Seneddau dwyieithog eraill;
 - arfer da o ran dwyieithrwydd mewn ymgysylltiad cyhoeddus;
 - adroddiad 'Panel Adolygu Annibynnol ar Wasanaethau Dwyieithog' Comisiwn y Cynulliad;

- egwyddorion Bil (Drafft) Cynulliad Cenedlaethol Cymru (leithoedd Swyddogol).

Gwasanaethau dwyieithog ar gyfer Aelodau'r Cynulliad a'u staff

45. Mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn falch o'i gyflawniadau o ran gallu cynnal trafodion cwbl ddwyieithog a'i statws fel corff a etholwyd yn ddemocrataidd a gydnabyddir yn rhyngwladol, sydd wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaethau dwyieithog arloesol mewn cyd-destun seneddol.
46. Ein huchelgais yw hwyluso'r broses o sicrhau bod trafodion y Cynulliad Cenedlaethol yn wirioneddol ddwyieithog drwy roi deunyddiau dwyieithog i Aelodau'r Cynulliad a'r dulliau iddynt gyfathrebu â'i gilydd a'r cyhoedd yn ddwyieithog.
47. Mae gweddill yr adran hon yn amlinellu sut rydym yn darparu gwasanaethau dwyieithog wrth baratoi ar gyfer busnes y Cynulliad Cenedlaethol yn y Cyfarfod Llawn a'r cyfarfodydd pwyllgor, ac wrth ei gynnal a'i gofnodi. Mae hefyd yn amlinellu'r ddarpariaeth sy'n galluogi Aelodau'r Cynulliad i gynhyrchu deunydd cyhoeddusrwydd dwyieithog i ategu eu gwaith fel Aelodau'r Cynulliad.

Gwasanaethau dwyieithog: paratoi ar gyfer y Cyfarfod Llawn a'r cyfarfodydd pwyllgor

48. Bydd y dogfennau i'w hystyried yn gyhoeddus yn ystod y Cyfarfod Llawn, a ddrafftwyd gan Gomisiwn y Cynulliad, Aelodau'r Cynulliad (ar wahân i'r rheini sydd â dyletswyddau fel Gweinidog) a staff y Cynulliad ar gael ar yr un pryd yn Gymraeg a Saesneg. Os bydd eitem yn cael ei chynnwys ar agenda'r Cyfarfod Llawn ar fyr rybudd, efallai na fydd yn bosibl cynhyrchu'r papurau hynny'n ddwyieithog, er y byddwn yn ceisio gwneud hynny ar bob achlysur.
49. Bydd y dogfennau i'w hystyried yn gyhoeddus yn ystod cyfarfodydd pwyllgor a ddrafftwyd gan Gomisiwn y Cynulliad, Aelodau'r Cynulliad (ar wahân i'r rheini sydd â dyletswyddau fel Gweinidog) a staff y Cynulliad ar gael ar yr un pryd i aelodau'r pwyllgorau yn Gymraeg a Saesneg ac o leiaf ddau ddiwrnod gwaith cyn y cyfarfodydd perthnasol. Bydd y cadeiryddion pwyllgor sy'n ddwyieithog yn cael papurau briffio

dwyieithog i annog mwy o ddefnydd o'r Gymraeg yn ein trafodion. Os bydd eitem frys yn cael ei chynnwys ar agenda pwyllgor ar fyr rybudd, efallai na fydd yn bosibl cyhoeddi'r papurau hynny'n ddwyieithog, er y byddwn yn ceisio gwneud hynny ar bob achlysur.

50. Bydd dogfennau ategol, a ddraftiwyd gan Gomisiwn y Cynulliad a staff y Cynulliad ar gyfer pwyllgorau a'r Cyfarfod Llawn, yn cael eu paratoi yn y ddwy iaith swyddogol, cyhyd â bod hynny'n rhesymol ymarferol. Byddwn yn darparu'r rhain i hwyluso mwy o ddefnydd o'r Gymraeg gan Aelodau'r Cynulliad yn ein trafodion. Lle bydd hyn yn anymarferol, byddwn yn cynghori Pennaeth y Gwasanaeth perthnasol.
51. Bydd ceisiadau am ddogfennau neu ymatebion ysgrifenedig i ymgynghoriadau pwyllgor yn cael eu cyflwyno yn ddwyieithog a byddwn yn gwneud cais i ddogfennau a geir gan sefydliadau allanol neu drydydd parti y bwriedir eu cyhoeddi a / neu eu defnyddio yn nhrefodion y Cynulliad Cenedlaethol fod yn ddwyieithog. Ein disgwyliad yw y bydd sefydliadau sydd â chynlluniau iaith, safonau neu bolisiâu iaith yn cyflwyno ymatebion yn y ddwy iaith i sicrhau y gall Aelodau'r Cynulliad a'r cyhoedd gymryd rhan yn y trafodion yn y ddwy iaith. Lle nad yw'n bosibl cael y dogfennau yn y ddwy iaith, byddwn yn eu cyhoeddi yn yr iaith y'u cyflwynwyd yn wreiddiol gan nodi mai dim ond yn yr iaith honno y'u cyflwynwyd.

Gwasanaethau dwyieithog: cynnal y Cyfarfod Llawn a chyfarfodydd pwyllgor

52. Mae trafodion y Cynulliad Cenedlaethol yn y Cyfarfod Llawn a'r pwyllgorau yn dilyn y gweithdrefnau yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006 a Rheolau Sefydlog y Cynulliad Cenedlaethol 2011.
53. Gall y cyfraniadau yn y Cyfarfod Llawn neu mewn cyfarfodydd pwyllgor fod yn Gymraeg neu Saesneg. Darperir gwasanaeth cyfieithu ar y pryd i gyfieithu'r cyfraniadau a wneir yn Gymraeg. Rhoddir clustffonau i bobl nad ydynt yn siarad Cymraeg (aelodau'r pwyllgor, tystion a'r ymwelwyr yn yr orielau cyhoeddus) i'w galluogi i ddilyn y trafodion.
54. Gall y rhai sy'n rhoi tystiolaeth i'r pwyllgorau wneud hynny yn Gymraeg neu Saesneg. Byddwn yn annog tystion i ddefnyddio'r Gymraeg os

gallant wneud hynny.

55. Pan gynhelir cyfarfodydd/cyflwyniadau gan ddefnyddio adnoddau fideogynadledda, bydd yr un egwyddorion â'r rhai sy'n sail i gyfarfodydd wyneb-yn-wyneb yn berthnasol, yn amodol ar gyfyngiadau technolegol.
56. **Ystyried deddfwriaeth drafft i Gymru**
Bydd unrhyw Filiau Cynulliad a gaiff eu hystyried gan y Cynulliad Cenedlaethol ar gael yn y ddwy iaith a gall Aelodau'r Cynulliad gynnal eu gwaith craffu yn y naill iaith neu'r llall, ac eithrio o dan yr amgylchiadau a amlinellir yn Rheol Sefydlog 26.5.

Gwasanaethau dwyieithog: cofnod o'r Cyfarfod Llawn a'r cyfarfodydd pwyllgor

57. Yn unol â Rheol Sefydlog 31, rhaid i Gomisiwn y Cynulliad "wneud trefniadau yn unol â gofynion adran 31(6) o'r Ddeddf, lle y bo'n gymwys, ar gyfer: (i) cadw cofnod o benderfyniadau'r Cynulliad Cenedlaethol, gan gynnwys penderfyniadau pwyllgorau ac is-bwyllgorau; (ii) cofnodi trafodion y Cynulliad Cenedlaethol, gan gynnwys trafodion pwyllgorau ac is-bwyllgorau a gynhelir yn gyhoeddus; a, (iii) cyhoeddi'r cofnod hwnnw o benderfyniadau ac adroddiad ar y trafodion."
58. Bydd fersiwn dreigl, sydd heb ei golygu, o'r cofnod 24 awr o drafodion ar gael ar fewnrwyd y Cynulliad o fewn dwy awr.
59. Byddwn yn cyhoeddi cofnod o drafodion y Cyfarfod Llawn wedi'i olygu (gyda chyfraniadau yn y Gymraeg wedi'u cyfieithu i'r Saesneg) ar-lein o fewn 24 awr ar ôl diwedd y Cyfarfod Llawn.
60. Byddwn yn cyhoeddi Cofnod cwbl ddwyieithog o drafodion y Cyfarfod Llawn sydd wedi'i olygu ar-lein o fewn pum niwrnod gwaith.
61. Byddwn yn cyhoeddi trawsgrifiad o drafodion pwyllgorau sydd wedi'i olygu (gyda chyfraniadau yn y Gymraeg wedi'u cyfieithu i'r Saesneg) ar-lein o fewn deng niwrnod gwaith.

Dogfennau cyhoeddusrwydd a gohebiaeth etholaethol Aelodau'r Cynulliad

62. Bydd papur â phennawd, cardiau busnes a hysbysebion ar gyfer cymorthfeydd nad ydynt yn rhai pleidiol wleidyddol yn cael eu cyhoeddi'n ddwyieithog a'u hariannu gan Gomisiwn y Cynulliad.
63. Nid yw'r ohebiaeth a anfonir at Aelodau'r Cynulliad gan etholwyr wedi'i chynnwys yn y Cynllun hwn. Fodd bynnag, os bydd etholwyr yn dymuno cysylltu â'u Haelodau Cynulliad yn Gymraeg, mae gwasanaeth i ddarparu cyfieithiad testun o Gymraeg i Saesneg ar gyfer y gwaith hwn ar gael i Aelodau'r Cynulliad. O dan y trefniant hwn, rhoddir lwfans blynyddol i bob Aelod, a reolir drwy swyddfeydd y grŵp plaid.

Datblygu sgiliau Cymraeg

64. Mae Comisiwn y Cynulliad wedi ymrwymo i ddarparu adnodd parhaus i alluogi Aelodau i ddysgu Cymraeg neu i wella eu sgiliau Cymraeg.
65. Bydd y gwasanaeth hwn wedi'i deilwra i fodloni anghenion penodol Aelodau unigol a bydd yn cynnig ystod o gyfleoedd dysgu a fydd yn cynnwys y defnydd o dechnoleg.

Gohebiaeth gan staff i Aelodau'r Cynulliad

66. Bydd unrhyw ohebiaeth a anfonir gan staff at Aelodau'r Cynulliad fel grŵp mewn e-bost, neu a gyhoeddir ar fewnrwyd yr Aelodau, ar gael yn ddwyieithog.
67. Byddwn yn ceisio anfon gohebiaeth ysgrifenedig at Aelodau unigol, grwpiau plaid neu fforymau eraill yn ddwyieithog neu yn Gymraeg neu Saesneg pan fydd dewis wedi'i fynegi. Byddwn yn hysbysu'r Aelodau pan na fydd hyn yn bosibl.

Monitro ein gwasanaethau

68. Pan na allwn ddarparu'r gwasanaethau dwyieithog a nodwyd, mae'n angenrheidiol bod staff y Cynulliad yn hysbysu Cydgysylltydd Cynllun Ieithoedd Swyddogol eu gwasanaeth. Mae'r Cydgysylltwyr yn gyfrifol

am gadw cofnod o'r achlysuron pan fyddwn yn methu â darparu gwasanaethau gwirioneddol ddwyieithog ac am sicrhau y cânt eu cynnwys yn ein hadroddiad cydymffurfio blynyddol.

Gwasanaethau dwyieithog i gyfathrebu ac ymgysylltu â'r cyhoedd

69. Mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn falch o'i gyflawniadau a'i ymrwymiad i ddarparu gwasanaethau dwyieithog o'r safon gorau i'r cyhoedd.
70. Ein huchelgais yw galluogi'r cyhoedd i gyfathrebu ac ymgysylltu â'r Cynulliad Cenedlaethol yn ddwyieithog. Mae gweddill yr adran hon yn amlinellu sut y byddwn yn cyflawni hyn.

Ein delwedd gyhoeddus

71. Byddwn yn ceisio cyflawni ein holl waith hysbysebu, cyhoeddusrwydd ac ymgyrchu, neu unrhyw ddulliau eraill a ddefnyddir i dargedu'r cyhoedd, yn ddwyieithog, neu bydd fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân ar gael ar yr un pryd. Byddwn yn trin y ddwy iaith yn gyfartal gan sicrhau, lle bo hynny'n berthnasol, fod y testun Cymraeg yn ymddangos yn gyntaf neu ar y brig. Os bydd y fersiynau Cymraeg a Saesneg ar gael ar wahân, bydd eu fformat, eu maint a'u hansawdd yn gyfartal a byddant yr un mor amlwg. Dyma fydd yr arfer safonol ar gyfer y cyhoeddiadau a ganlyn:

- cyhoeddiadau i'r wasg;
- arwyddion ac arddangosfeydd, boed hwy'n rhai parhaol neu'n rhai dros dro;
- posterï a llyfrynnau gwybodaeth gyhoeddus (gan gynnwys rhai electronig);
- elfennau'r brand, logos, stondinau codi a deunyddiau arddangos;
- dogfennau ymgynghori, codau ymarfer neu ddogfennau tebyg;
- llythyrau penderfynu y bwriedir iddynt gyfleu polisi i gynulleidfa ehangach;
- papurau â phennawd, cardiau busnes, deunyddiau papur a thystysgrifau;
- ffurflenni, arolygon ac ymholiadau;
- llinellau ffôn neu beiriannau ateb i'r cyhoedd allu ymateb i ymgyrchoedd neu gystadlaethau;

- hysbysebion mewn papurau newydd, cylchgronau neu gylchlythyrau Saesneg a ddsbarthir yn bennaf neu'n gyfan gwbl yng Nghymru;
 - hysbysebion ar wefannau;
 - hysbysebion recriwtio;
 - arddangosfeydd clyweledol, CD Roms, teithiau rhith-wirionedd neu gyfryngau rhyngweithiol eraill;
 - hysbysebion ar y gwefannau cyfryngau cymdeithasol, y teledu, y sinema, y rhyngrwyd neu'r radio;
 - pob gwybodaeth hyrwyddo aml-gyfrwng (fideos, podlediadau, e-byst, ac ati).
72. Gellir paratoi eitemau a fwriedir ar gyfer rhaglenni teledu, y cyfryngau, cyhoeddiadau neu wefannau Cymraeg yn Gymraeg yn unig. Byddwn yn osgoi is-deitlo Cymraeg neu ddybio i'r Gymraeg ar wahân i'r achosion pan ddefnyddir trosleisio neu pan y'u defnyddir at ddibenion hygyrchedd.
73. Bydd dogfennau cyfreithiol a chytundebau cyfreithiol gydag unigolion, sefydliadau neu grwpiau yn cael eu cynnig yn Gymraeg neu Saesneg.
74. Bydd mapiau neu unrhyw ddogfennau eraill a gynhwysir mewn cytundebau o'r fath a gaiff eu benthg neu eu defnyddio o dan drwydded yn ymddangos yn iaith y ffynhonnell wreiddiol.
75. Er bod ein hunaniaeth gorfforaethol yn ddwyieithog, gelwir y lleoliadau a ganlyn gan eu henwau Cymraeg yn unig:
- y Senedd a manau penodol yno; y Neuadd, y Cwrt, yr Oriol a'r Siambr;
 - Tŷ Hywel a man y tu mewn iddo;
 - Siambr Hywel.
76. Bydd cyhoeddiadau ar y systemau sain, gan gynnwys y rhai yn y lifftiau ar yr ystâd, yn ddwyieithog.
77. Pan fyddwn yn rhyddhau gwybodaeth o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth neu'r Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol, byddwn yn ei chyfieithu i ddewis iaith y sawl sy'n gofyn am y wybodaeth, ar yr amod na fydd yn rhaid cyfieithu mwy na 100 o eiriau. Bydd llythyrau neu e-byst eglurhaol yn cael eu darparu yn Gymraeg neu Saesneg, gan

ddibynnu ar yr iaith a ddefnyddiwyd yn y cais gwreiddiol.

78. Mae'n angenrheidiol bod aelodau o staff yn cadw cofnod o bob achlysur lle nad ydym wedi bodloni'r safonau hyn er mwyn mesur hyd a lled yr arfer.

Cyfathrebu â'r cyhoedd (e-byst neu gopiâu caled o ddogfennau)

79. Pan fydd aelod o'r cyhoedd yn cysylltu ag aelod o staff y Cynulliad, byddwn yn:
- ateb yn yr un iaith;
 - ymateb i'r holl ohebiaeth, p'un a yw yn Gymraeg, yn Saesneg neu yn y ddwy iaith, o fewn 15 diwrnod;
 - sicrhau bod unrhyw ohebiaeth yn dilyn cyfarfod neu sgwrs ffôn yn Gymraeg yn cael ei darparu yn Gymraeg, oni bai ein bod yn ymwybodol y byddai'n well gan y sawl sy'n ei derbyn ei chael yn Saesneg neu'n ddwyieithog.
80. Pan fyddwn yn dechrau cyfathrebu ag unigolyn, grŵp neu sefydliad:
- byddwn yn gwneud hynny'n ddwyieithog, oni bai ein bod yn gwybod y byddai'n well ganddynt gyfathrebu yn Gymraeg neu yn Saesneg yn unig;
 - bydd gohebiaeth safonol neu gylchlythyrau a anfonir i sawl person yng Nghymru yn ddwyieithog oni bai ein bod yn gwybod y byddai'n well gan bob un ohonynt eu cael yn Gymraeg neu yn Saesneg yn unig;
 - os bydd angen cyhoeddi'r fersiynau Cymraeg a Saesneg o unrhyw ohebiaeth ar wahân, ein dull arferol fydd sicrhau bod y ddwy fersiwn ar gael ar yr un pryd a'u bod o'r un safon, ffurf a maint ac yr un mor amlwg, gan adlewyrchu'r egwyddor o gydraddoldeb;
 - bydd unrhyw ddogfennau a anfonir gyda llythyrau dwyieithog yn ddwyieithog, pan fyddant ar gael;
 - bydd datganiad byr sy'n nodi ein bod yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg yn cael ei gynnwys ar bapur swyddogol ac mewn llofnodion awtomatig e-byst a chyhoeddiadau swyddogol;
 - bydd llofnod awtomatig a negeseuon allan o'r swyddfa holl aelodau staff y Cynulliad yn ddwyieithog.

Cyfathrebu dros y ffôn

81. Ein dull arferol bydd sicrhau y gall y cyhoedd siarad yn Gymraeg neu Saesneg wrth siarad â ni dros y ffôn. Mae'r gwasanaethau ar gael i sicrhau:

- y bydd unrhyw aelod o'r cyhoedd sy'n cysylltu â'n switsfwrdd yn cael ei gyfarch yn ddwyieithog;
- y bydd ein prif switsfwrdd yn defnyddio neges ddwyieithog ar ei beiriant ateb;
- y bydd gweddill ein staff yn cael eu hannog i ateb y ffôn gyda chyfarchiad dwyieithog ac yn recordio negeseuon dwyieithog ar eu peiriannau ateb personol;
- os bydd rhywun yn galw un o'n llinellau uniongyrchol ac yn dymuno siarad yn Gymraeg, ond nad yw'r sawl sy'n ateb yr alwad yn gallu siarad Cymraeg, byddant yn ceisio trosglwyddo'r alwad i gydweithiwr sy'n siarad Cymraeg i ymdrin â'r ymholiad;
- os nad oes rhywun sy'n siarad Cymraeg ar gael i ymdrin â'r ymholiad, rhoddir y dewis i'r sawl sy'n galw gael siaradwr Cymraeg i'w ffonio yn ôl cyn gynted â phosibl, neu, os yw'n dymuno hynny, gall barhau â'r alwad yn Saesneg neu gyflwyno ei ymholiad yn Gymraeg mewn llythyr neu e-bost.

Cyfarfodydd unigol

82. Pan fydd aelod o'r cyhoedd yn dymuno trafod gweithdrefnau neu wasanaethau'r Cynulliad Cenedlaethol wyneb-yn-wyneb, mae croeso iddo wneud hynny yn Gymraeg neu Saesneg. Byddwn yn trefnu'r cyfarfod drwy ganfod ymlaen llaw pa iaith yr hoffai'r aelod o'r cyhoedd ei siarad, ac os yw'n dewis y Gymraeg, byddwn yn trefnu bod siaradwr Cymraeg yn mynd i'r cyfarfod. Os nad yw hynny'n bosibl, byddwn yn trefnu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd, lle bo hynny'n rhesymol ymarferol. Os nad yw'r opsiynau hynny ar gael, gwahoddir yr aelod o'r cyhoedd i ymdrin â'r mater mewn gohebiaeth yn Gymraeg neu i barhau â'r cyfarfod yn Saesneg. Pan gynhelir cyfarfodydd wyneb-yn-wyneb ar fyr rybudd, dilynir y camau uchod, ond ni allwn sicrhau y bydd siaradwr Cymraeg ar gael bob tro.

Fideogynadledda

83. Pan gynhelir cyfarfodydd fideogynadledda, bydd yr un egwyddorion â'r rhai sy'n sail i'r cyfarfodydd wyneb-yn-wyneb yn berthnasol, yn amodol ar gyfyngiadau'r dechnoleg sydd ar gael.

Y rhyngrwyd a chyfryngau cymdeithasol

84. Bydd pob dogfen y mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn ei pharatoi, a'r rhai sydd ar gael i'w llwytho o'n gwefannau, ar gael yn ddwyieithog. Bydd y cyflenwad o wybodaeth ar ein gwefannau cyfryngau cymdeithasol hefyd ar gael yn ddwyieithog, naill ai drwy un cyfrif dwyieithog neu drwy gyfrifon Cymraeg a Saesneg ar wahân.
85. Cyhoeddir gwybodaeth sy'n ymwneud â'r Cynulliad Cenedlaethol ar ddwy wefan, un yn Gymraeg yn www.cynulliadcymru.org a'r llall yn Saesneg yn www.assemblywales.org. Mae wedi'i strwythuro mewn ffordd sy'n galluogi'r defnyddiwr i symud yn uniongyrchol o dudalen yn un fersiwn i'r dudalen gyfatebol yn yr iaith arall. Ein harfer safonol fydd cyhoeddi fersiynau dwyieithog neu fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân o ddogfennau gan y Cynulliad Cenedlaethol ar y wefan. Efallai na fydd hyn yn bosibl bob tro os nad oes gan y dogfennau hyn hyd oes hir iawn neu os oes angen eu cyhoeddi ar frys. Byddwn yn cadw cofnodion o'r achlysuron pan fyddwn yn cyhoeddi dogfennau a gyflwynwyd gan y Cynulliad Cenedlaethol yn uniaith yn unig er mwyn monitro'r arfer.
86. At ddibenion chwilio a mynegeo, cyhoeddir y wybodaeth ar rai o'n proffiliau cyfryngau cymdeithasol yn Saesneg yn gyntaf ac yna yn Gymraeg. Byddwn yn ymateb i'r ymholiadau ar ein proffiliau cyfryngau cymdeithasol yn yr iaith y cânt eu postio, waeth beth fo iaith y proffil a ddefnyddir (er enghraifft, byddwn yn rhoi ateb yn Gymraeg i ymholiad Cymraeg ar dudalen Saesneg Facebook, ac i'r gwrthwyneb).
87. Pan fyddwn yn dylunio gwefannau newydd, neu pan fyddwn yn datblygu ein gwefan, byddwn bob tro'n ystyried y canllawiau diweddaraf ar ddwyieithrwydd a thechnoleg gwybodaeth.

Ymgysylltu â'r cyhoedd – digwyddiadau'r Cynulliad

88. Ar gyfer pob cyfarfod, seminar, digwyddiad neu arddangosfa gyhoeddus a drefnir gan staff y Cynulliad ac sy'n ymwneud â thrafodion y Cynulliad Cenedlaethol, byddwn yn:
- cyhoeddi gwahoddiadau a hysbysebion dwyieithog;
 - asesu'r galw am wasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i Saesneg ac yn hysbysu'r rhai sy'n debygol o ddod i ddigwyddiad ynghylch yr adnodd er mwyn eu hannog i gyfrannu yn eu dewis iaith;
 - darparu unrhyw bapurau atodol ac adroddiadau dilynol a phob gwybodaeth arall yn ddwyieithog;
 - gwneud pob dim posibl i sicrhau bod staff sy'n siarad Cymraeg ar gael mewn cyfarfodydd/digwyddiadau o'r fath.
89. Bydd yr un egwyddorion yn berthnasol i ddigwyddiadau nad ydym wedi'u trefnu ond y byddwn yn mynd iddynt.

Digwyddiadau ac arddangosfeydd a noddir gan Aelod Cynulliad

90. Disgwylir i sefydliadau sydd â safonau, polisiau neu gynlluniau dwyieithog ac sy'n cynnal digwyddiadau ar ein hystâd sy'n targedu Aelodau'r Cynulliad neu'r cyhoedd weithredu yn unol â'r egwyddorion yn yr adran hon. Anogir sefydliadau nad oes ganddynt gynlluniau iaith i weithredu'n unol ag egwyddorion eu cynlluniau.

Ymwelwyr i ystâd y Cynulliad Cenedlaethol

91. Bydd aelodau dwyieithog o staff y tîm cyswllt cyntaf yn gwisgo bathodynau 'Iaith Gwaith' Bwrdd yr Iaith Gymraeg.
92. Yn y manau cyhoeddus a reolir gan Gomisiwn y Cynulliad (y Senedd, y Pierhead, Tŷ Hywel a swyddfa'r Cynulliad Cenedlaethol yng ngogledd Cymru) ac mewn cyfarfodydd pwyllgor a digwyddiadau cyhoeddus a gynhelir y tu allan i adeiladau'r Cynulliad Cenedlaethol, gall y cyhoedd siarad â staff rheng flaen naill ai yn Gymraeg neu Saesneg, yn unol â'u dewis.
93. Pan fydd cwsmeriaid yn trefnu ymweliadau addysg neu deithiau yn y Senedd, gofynnir iddynt a hoffent eu cynnal yn Gymraeg neu Saesneg.

Byddwn yn parhau i gynnig teithiau munud olaf o'r Senedd yn Gymraeg a Saesneg hyd orau ein gallu.

94. bryd i'w gilydd, ni fydd yn bosibl sicrhau bod siaradwyr Cymraeg o'n gwasanaeth cyswllt cyntaf ar gael, ond rydym wedi ymrwmo i wella sgiliau Cymraeg y staff sy'n cynnig y gwasanaethau hyn a byddwn yn ystyried egwyddorion y Cynllun hwn wrth gynllunio hyfforddiant staff a recriwtio.

Datblygu gwasanaethau newydd i'r cyhoedd

95. Wrth ymdrin â'r cyhoedd mewn ffyrdd eraill, bydd y Gymraeg a'r Saesneg yn cael eu trin yn gyfartal a bydd hyn yn cael ei gynnwys yn y prosesau cynllunio. Bydd gwasanaethau newydd ar gael yn ddwyieithog o'r cychwyn cyntaf. Mae hyn yn cynnwys eitemau amrywiol fel sylwebaeth sain, cyfryngau rhyngweithiol, teithiau rhithwir, a theithiau tywys.

Staff y Cynulliad a'n trefniadau corfforaethol

96. Mae Comisiwn y Cynulliad yn cyflogi tua 350 o staff, ac mae tua un rhan o dair ohonynt yn ddwyieithog. Ers i Gynllun Iaith Gymraeg cyntaf y Cynulliad Cenedlaethol gael ei gymeradwyo yn 2007, mae cyfran y staff sy'n siarad Cymraeg wedi cynyddu'n flynyddol, i hwyluso gwaith dwyieithog yn y mwyafrif o'n meysydd rheng flaen yn benodol. Mae nifer o staff yn parhau i ddysgu Cymraeg, wedi bod ar sesiynau ar sut i ateb y ffôn yn ddwyieithog neu wedi cael hyfforddiant cwrdd a chyfarch anffurfiol.

Rheoli ac annog sgiliau dwyieithog staff y Cynulliad

97. Er mwyn i ni wireddu ein huchelgais i fod yn sefydliad gwirioneddol ddwyieithog, byddwn yn:
- asesu nifer y staff dwyieithog ym mhob maes gwasanaeth yn flynyddol;
 - ystyried a yw ein darpariaeth ddwyieithog yn ddigonol i ddarparu gwasanaethau;

- paratoi cynlluniau sgiliau ieithyddol ar gyfer pob maes gwasanaeth i fynd i'r afael ag unrhyw fylchau yn y ddarpariaeth;
 - recriwtio'r bobl addas i swyddi lle nodir bod y gallu i siarad Cymraeg yn hanfodol neu'n ddymunol;
 - darparu hyfforddiant gorfodol ar ymwybyddiaeth ieithyddol yn ystod cyrsiau cynefino corfforaethol.
98. Byddwn yn parhau i sicrhau mai dim ond staff cyfieithu a chyfieithu ar y pryd achrededig fydd yn gwneud y gwaith cyfieithu testun a chyfieithu ar y pryd, ac fe'u hanogir i fod yn aelodau o Gymdeithas Cyfieithwyr Cymru neu sefydliad proffesiynol tebyg. Bydd hyfforddeion yn cael eu cyflogi o bryd i'w gilydd hefyd. Fodd bynnag, er mwyn osgoi dibynnu'n ormodol ar y gwasanaeth cyfieithu, byddwn yn parhau i annog staff sy'n siarad Cymraeg sydd â'r sgiliau angenrheidiol i ddarparu gwasanaeth dwyieithog.
99. Yn ogystal ag annog staff i ddysgu Cymraeg neu i wella eu sgiliau Cymraeg, rydym yn bwriadu lleihau ein dibyniaeth ar ein gwasanaeth cyfieithu dros amser. Bydd hyn yn debygol o olygu y bydd angen i fwy o'n staff dwyieithog ddatblygu eu sgiliau drafftio yn Gymraeg. Mae'r defnydd cynyddol o'r gwasanaeth gwirio testun yn awgrymu y bu gwelliannau yn y maes hwn a bod mwy o staff yn paratoi papurau drafft yn ddwyieithog. Fodd bynnag, bydd angen i ni ddatblygu'r maes hwn ymhellach yn y dyfodol. Os ydym am wireddu uchelgais y Cynllun hwn, mae angen i nifer y bobl sy'n dysgu Cymraeg gynyddu hefyd. Cynigir y bydd pob aelod o staff yn gallu siarad rhywfaint o Gymraeg erbyn mis Gorffennaf 2012 yn unol â'n hethos dwyieithog.
100. I hwyluso'r twf yn y defnydd o'n sgiliau dwyieithog, byddwn yn darparu strategaeth sgiliau dwyieithog drafft erbyn mis Mawrth 2012, a fydd yn ystyried y ffactorau a ganlyn:
- archwiliadau cyfnodol ar nifer y staff sy'n ddwyieithog a'u lleoliad;
 - lefel y sgiliau siarad, darllen ac ysgrifennu Cymraeg a monitro gwelliannau yn flynyddol;
 - hyfforddiant ffurfiol i staff ddysgu a gwella eu sgiliau Cymraeg a gwerthuso llwyddiant y buddsoddiad;
 - y gwersi a ddysgwyd o diwtora Aelodau'r Cynulliad;
 - dull gweithredu wedi'i strwythuro i helpu staff i wella eu sgiliau cwrdd a chyfarch anffurfiol a'u sgiliau ateb y ffôn yn ddwyieithog;

- yr angen i sefydlu cronfa o fentoriaid a hyfforddwyr Cymraeg o fewn meysydd gwasanaeth;
- sut rydym yn cyflwyno ein hethos dwyieithog a'n hyfforddiant ar ymwybyddiaeth ieithyddol yn y broses gynefino;
- cynyddu'r casgliad o enghreifftiau da o ddysgu Cymraeg yn y gwaith;
- sut rydym yn codi ymwybyddiaeth staff ynghylch opsiynau i ddysgu'r Gymraeg;
- sut rydym yn cynnwys gwella sgiliau ieithyddol yn yr amcanion yn ein proses Rheoli Perfformiad ac Adolygu Datblygiad a'n Cynlluniau Uchelgais Gyrfa;
- cyllideb Comisiwn y Cynulliad;
- yr angen am gyfleoedd dysgu hyblyg;
- sut rydym yn gweithredu'r Cynllun ac yn monitro a gwerthuso'r cynnydd.

Recriwtio

101. Mae Comisiwn y Cynulliad yn gyflogwr cyfle cyfartal. Mae hyn yn golygu bod pawb yn cael yr un cyfle i gael eu cyflogi a'u dyrchafu ar sail eu gallu, eu cymwysterau a pha mor addas ydynt ar gyfer y swydd. O ganlyniad, ni ddylai unrhyw un fod o dan anfantais oherwydd amgylchiadau neu ofynion na ellir eu cyfiawnhau.
102. Bydd cynllun iaith pob maes gwasanaeth yn cael ei ystyried pan fydd angen recriwtio staff. Os na ellir canfod ymgeiswyr addas sy'n siarad Cymraeg ar gyfer swydd y mae siarad Cymraeg yn ddymunol ar ei chyfer, anogir pob ymgeisydd a benodir i ddysgu Cymraeg, a bydd y deunyddiau cynefino yn nodi'n glir sut mae hyn o fudd i staff y Cynulliad.
103. Gellir penodi ymgeisydd nad yw'n gallu siarad Cymraeg i swydd yr ystyrir bod y Gymraeg yn *hanfodol* ar ei chyfer os oes dealltwriaeth y rhoddir amser iddo ddysgu'r iaith. Yn yr achosion hyn, bydd dysgu'r iaith i'r lefel ddisgwyliedig, a hynny o fewn cyfnod rhesymol o amser y cytunir arno, yn faen prawf perfformiad penodol.
104. Os na ellir canfod unrhyw ymgeiswyr addas sy'n siarad Cymraeg ar gyfer swydd yr ystyrir bod y Gymraeg yn hanfodol ar ei chyfer (neu os

yw ymgeisydd nad yw'n gallu siarad Cymraeg wedi'i benodi a'i fod yn dysgu'r iaith), byddwn yn gwneud trefniadau dros dro ar gyfer darparu gwasanaeth Cymraeg (drwy ddefnyddio, er enghraifft, staff sy'n siarad Cymraeg o fannau eraill yn ein sefydliad i gyflenwi rhannau o'r gwasanaeth).

105. Bydd pecynnau gwybodaeth a ffurflenni cais yn cael eu darparu'n ddwyieithog bob tro. Gall ymgeiswyr lenwi eu ffurflenni cais yn eu dewis iaith.
106. Bydd cyfweiliadau dwyieithog yn cael eu cynnal ar gyfer swyddi lle mae sgiliau ieithyddol yn Gymraeg a Saesneg yn hanfodol. Yn ogystal, bydd sgiliau'r ymgeisydd yn Gymraeg a Saesneg yn cael eu hasesu fel rhan o'r broses ddethol.

Cyfathrebu mewnol i Staff

107. Ers i Gynllun cyntaf y Cynulliad Cenedlaethol gael ei gymeradwyo yn 2007, bu cynnydd yn ein gohebiaeth fewnol ddwyieithog i adlewyrchu'r ffaith bod tua un rhan o dair o'n staff yn ddwyieithog a bod nifer yn dysgu Cymraeg. I wneud y defnydd gorau o'n hadnoddau cyfyngedig, byddwn yn parhau i flaenoriaethu argaeledd y dogfennau dwyieithog sydd ar gael i Aelodau'r Cynulliad a'r cyhoedd.
108. Yn unol ag ethos dwyieithog y sefydliad, byddwn bob tro yn paratoi'r negeseuon mewnol a ganlyn i staff yn ddwyieithog:
 - pob neges fer ar dudalen newyddion y staff (er nad yw'r linciau sy'n mynd â defnyddwyr i ddogfennau mewnol eraill neu dudalennau eraill ar y fewnwyd bob tro yn ddwyieithog);
 - negeseuon e-bost grŵp i'r holl staff;
 - arolygon staff.
109. Byddwn yn ceisio cynyddu'r defnydd o wybodaeth ddwyieithog i staff mewn ffyrdd eraill hefyd, er enghraifft drwy gael tudalennau glanio statig dwyieithog ar y fewnwyd a ffurflenni y gall y staff eu defnyddio o bryd i'w gilydd. Bydd y datblygiadau hyn yn cael eu hystyried gan y meysydd gwasanaeth gyda'r bwriad o gynyddu'r defnydd o Gymraeg yn fewnol a gweithio tuag at wireddu ein huchelgais o fod yn sefydliad

gwirioneddol ddwyieithog.

110. Darperir gwasanaeth cyfieithu ar y pryd mewn cyfarfodydd i'r holl staff, a bydd y bwriad i'w ddarparu mewn cyfarfodydd llai yn cael ei ddatblygu i roi mwy o gyfleoedd i siarad Cymraeg yn y gweithle.

Defnyddio technoleg gwybodaeth a chyfathrebu dwyieithog

111. Adlewyrchir yr angen i ddarparu gwybodaeth a gwasanaethau yn Saesneg ac yn Gymraeg, ac i weithredu'n unol â'r Cynllun hwn, yn null gweithredu Comisiwn y Cynulliad o ran technoleg gwybodaeth a chyfathrebu.
112. Mae meddalwedd Cysgliad (Cysill a Cysgair) a Tô Bach ar gael i holl Aelodau'r Cynulliad, eu staff cymorth a staff y Cynulliad.
113. Wedi i brofion effaith gael eu cynnal, bydd pecyn iaith Gymraeg Microsoft ar gyfer Windows ac Office 2010 ar gael i Aelodau a staff cyn gynted ag y bydd modd.
114. Mae cyfleusterau cyfieithu ar y pryd yn rhan anhepgor o'r systemau sain a ddefnyddir yn y Siambr, yr ystafelloedd pwyllgora a'r offer a ddefnyddir mewn cyfarfodydd allanol. Yn 2009, gosododd y Cynulliad system gynadledda sy'n rhan o rwydwaith fideo Cymru yn ei phedwaredd ystafell bwyllgora sy'n darparu gwasanaeth fideogynadledda cwbl ddwyieithog gyda safleoedd cydnaws eraill yng Nghymru.
115. Bydd y Gwasanaeth Cyfieithu a Chofnodi yn defnyddio meddalwedd cyfieithu peirianyddol a chof-cyfieithu i gynorthwyo â'r gwaith o gyfieithu Cofnod y Trafodion o fis Ionawr 2012. Bydd meddalwedd cof-cyfieithu hefyd yn cael ei ddefnyddio ar gyfer yr holl waith cyfieithu testun mewnol o 2012. Yn ystod toriad hâf 2012, bydd adolygiad cynhwysfawr ar effeithiolrwydd y system a ddefnyddir i gyfieithu Cofnod y Trafodion yn cael ei gynnal.
116. Byddwn yn parhau i gysylltu â swyddfa Comisiynydd y Gymraeg, a monitro datblygiadau ym maes technoleg cyfieithu er mwyn sicrhau ein bod yn ymwybodol o'r datblygiadau diweddaraf a'r cyfleoedd sydd ar gael i ni yn y maes hwn fel bod y Cynulliad yn parhau i fod ar flaen y

gad o ran democratiaeth ddigidol.

Gweithio mewn partneriaeth

117. Byddwn yn parhau i weithio mewn partneriaeth â sefydliadau eraill sy'n gweithredu'n ddwyieithog er mwyn monitro, adolygu a gwella ein gwasanaethau dwyieithog fel sy'n addas.
118. Os bydd Comisiwn y Cynulliad yn gweithredu fel arweinydd strategol ac ariannol o fewn partneriaeth ffurfiol, bydd yn sicrhau bod elfennau gwasanaethau cyhoeddus y bartneriaeth yn cydymffurfio â'r Cynllun hwn.
119. Os bydd Comisiwn y Cynulliad yn ymuno â phartneriaeth ffurfiol o dan arweinyddiaeth sefydliadau eraill, bydd cyfraniad Comisiwn y Cynulliad yn cydymffurfio â'r Cynllun hwn. Bydd y partneriaid eraill yn cael eu hannog i gydymffurfio â'r Cynllun hwn yn ogystal neu, o leiaf, gydag ysbryd Deddf yr Iaith Gymraeg 1993.
120. Os bydd Comisiwn y Cynulliad yn dod yn bartner mewn consortiwm, byddwn yn annog y consortiwm hwnnw i gydymffurfio â'r Cynllun hwn. Pan fyddwn yn gweithredu yn enw'r consortiwm hwn, byddwn yn gwneud hynny un unol â'r Cynllun hwn.

Gwasanaethau drwy drydydd parti

121. Bydd unrhyw gytundebau neu drefniadau rhwng Comisiwn y Cynulliad a thrydydd parti (fel asiantaethau recriwtio, cwmnïau arlwy, ymgynghorwyr a chontractwyr, ac ati) i ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd yn cael eu rhoi ar waith yn unol â rhannau perthnasol y Cynllun hwn.
122. Bydd gwybodaeth yn cael ei rhoi i gyflenwyr yn ystod y broses dendro sy'n amlinellu'n fanwl pa nwyddau neu wasanaethau sy'n gorfod cydymffurfio â'r Cynllun hwn. Gwneir hyn yn ysgrifenedig ar ddechrau'r broses i sicrhau bod y ceisiadau a'r prisiau yn gyfartal ac yn gyson. Bydd gofyn i gyflenwyr nwyddau neu wasanaethau gyflwyno adroddiadau ar gydymffurfio â rhannau perthnasol y Cynllun yn unol â'r cymal/cymalau yn y cytundeb/archeb gwasanaeth rhwng Comisiwn

y Cynulliad a'r contractwr unigol. Bydd canllawiau ysgrifenedig penodol (sy'n nodi'r cyngor gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg neu Comisiynydd y Gymraeg) yn cael eu rhoi i staff a chyflenwyr i sicrhau bod y dull gweithredu a'r adroddiadau cydymffurfio yn gyson.

123. Fel arfer, bydd gwahoddiadau i gynnig tendr yn cael eu hanfon at gyflenwyr yn eu dewis iaith lle bo hynny'n wybyddus, neu fel arall byddant yn ddwyieithog. Oni bai fod y rhai sy'n rhan o'r broses yn deall Cymraeg, at ddibenion gwerthuso mewnol, bydd unrhyw geisiadau am dendr sydd yn Gymraeg yn unig yn cael eu cyfieithu. Bydd staff sy'n cynnal y broses asesu'n sicrhau bod digon o amser yn eu hamserlen ar gyfer y gwaith cyfieithu. Dros gyfnod o amser, gyda nifer gynyddol o staff dwyieithog, dylai'r angen am gyfieithu o'r fath leihau.